

ECO'R WYDDFA

RHIF 282

HYDREF 2001

PRIS 40c

ANGEN GOLYGYDD

Mae'r ddau ohebydd presennol wedi gofalu am yr Eco ers rhifyn Mai 1992 – cyfnod o 9 mlynedd, a 103 o rifynnau.

Mae'r ddau ohonynt yn awyddus i drosglwyddo'r papur i ofal golygydd neu olygyddion newydd cyn diwedd Rhagfyr eleni.

Cysylltwch â ni os oes gennych ddiddordeb yn y gwaith.

John Pritchard ac Iwan Roberts


Bwrlwm yr Haf ym Mro'r Eco



Carnifal Llanberis



Carnifal Peniarth



Agor Canolfan Gymuned Llanrug

Unwaith eto eleni bu'r haf yn fwrlwm o weithgareddau cymunedol ym mhentrefi'r fro.

Mae'r lluniau ar y dudalen hon yn rhoi blas ar yr hwyl ond cewch yr holl hanes a

mwya'r o luniau tu mewn i'r Eco. Diolch i bawb a fu'n brysur yn trefnu'r holl ddigwyddiadau a diolch i'r ardalwyr am fwrw iddi mor frwdfrydig i fwynhau eu hunain.



Jordan a Megan yng Ngharnifal Nant Peris

Ymddiheuriad

Yn rhifyn mis diwethaf o Eco'r Wyddfa cyhoeddwyd sylwadau ynglŷn â gwaith Gymdeithas Trigolion Dinorwig a achosodd boen mawr i'r rhai sy'n ymwneud â gwaith y Gymdeithas.

Atgubir y pwyntiau'n fanwl gan Gymdeithas Trigolion Dinorwig yng ngholofn lythyrau'r rhifyn hwn ar dudalen 2.

Mae gohebydd Dinorwig – Marian Jones, y golygyddion – John Pritchard ac Iwan Roberts a swyddogion Eco'r Wyddfa yn ymddiheuro i Gymdeithas Trigolion Dinorwig, ei phwyllgor a'r swyddogion am y tramgwydd a achoswyd gan y sylwadau a wnaed.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 282
HYDREF**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cyfni Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Eilidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Bocws Eryl (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, O Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwan Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650576)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, HYDREF 22

Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, TACHWEDD 1

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Tachwedd Rhagfyr	Hydref 22 Tachwedd 19	Tachwedd 1 Tachwedd 29	Llanberis Caeathro	Mr Gwilym Evans Mr Clive James

Llythyrau

Llythyr gan drysorydd Cymdeithas Trigolion Dinorwig 14/09/01

Mae'n ymddangos fod yna ddrwsych wedi bod ynglŷn â'r cyfrifon â gyflwynwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ym Mehefin sydd wedi arwain at honiadau o gamymddygiad. Gobeithiaf bydd y datganiadau canlynol yn egluro ein sefyllfa.

Mae pob cais llwyddiannus am ariannu yn cael ei oruchwylio gan y corff ariannu yn ystod y cynllun. Ar ôl cwblhau'r cynllun, mae'r corff ariannu yn derbyn adroddiad llawn a datganiad ariannol. Gallant, os dymunant, gynnal archwiliad manwl.

Mae pob taliad yn cael ei gymeradwyo gan o leiaf 2 aelod o'r pwyllgor. Mae taliad yn cael ei wneud ar ôl derbyn derbyneb neu infois, ac mae yn cael ei atodi gan nodyn taliad gyda dyddiad, disgrifiad a swm y taliad arno. Cafwyd rhai trafferthion pan nad oedd sefydliadau eraill yn cynhyrchu'r gwaith papur ond yn yr achosion yma, cytunwyd fod y nodyn taliad yn ddigon o brawf fod y taliad wedi ei wneud at bwrpas y cyfrifon, ynghyd â nodyn o'r banc yn dangos fod y taliad wedi ei gwblhau.

Mae crynodeb o'r cyfrifon blynnyddol yn cael ei gyflwyno yn y CCB. Dengys y cyfrifon taliadau a ddisgwyllir eu gwneud ond sydd heb eto dderbyn infois gennym. Nid yw'n dangos y swm union yn y cyfrif. Ynglŷn ag arian grantiau cyfyngedig, gan nad yw'r arian ar gael at ddefnydd cyffredinol, a dim ond am ddefnydd penodol, dangosir y cyfrif gyda dim yn weddill.

Pan gynhaliwyd y CCB, yr unig arian grant oedd wedi ei dderbyn oedd grant Plant a

Phobl Ifanc Cyngor Gwynedd. Yn y cyfarfod, roedd yna hysbysfwrdd yn arddangos adroddiadau ar y ddau ddiwrnod antur, copïau o'r adroddiadau a ddanfonwyd i Eco'r Wyddfa a'r Caernarfon and Denbigh Herald a datganiad o'r cyfrifon yn dangos yr holl daliadau a wnaed ac yn dangos faint o'r grant oedd dal yn weddill. I'r rhai a fethodd fod yn bresennol yn y cyfarfod, amgaeaf gopi o'r datganiad.

Datganwyd faint o'r grant oedd dal yn weddill ym mhob un o'r cyfarfodydd â gynhaliwyd yn ddiweddarach gyda'r rhieni, y plant a'r cyngor gan ategu fod yr arian yn cael ei gadw mewn cyfrif nes i ni gael caniatad i'w wario at ddefnydd arall, neu ei ddychwelyd i'r Cyngor os dymunent.

Mae'n rhaid cael ymrwymiad o ariannu cyfatebol cymunedol gyda phob cais a wneir am ariannu. Rydym yn gwneud hyn gydag amser gwirfoddolwyr ar raddfa y WCVA. Mae pob gweithgaredd â gynhaliwyd hyd yn hyn wedi'u cefnogi gan wirfoddolwyr yn ddi-dâl. Rydym hefyd wedi bod yn ffodus fod nifer o bobl â sgiliau o'r pentref wedi darparu eu hyfforddiant am ddim. Er enghraifft, roedd y ddau drip i Blas y Brenin ond yn bosib gan fod 3 gwirfoddolwr yn edrych ar ôl y plant, a gweithiodd yr hyfforddwyr heb dâl.

Mae pob un o aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr wedi rhoi amser, deunyddiau, ac arian i alluogi ni i gynnal y gweithgareddau yma. Ni chafwyd tâl am y nifer o alwadau ffôn, costau teithio na'r oriau o waith cyfrifadurol â gyflawnwyd gan ein cefnogwyr. Mae'r Gymdeithas wedi bodoli am dros flwyddyn heb gefnogaeth ariannol o du allan y gymuned. Mae'r holl arian a dderbyniwyd mor belled wedi ei sianelu tuag at yr achosion hynny a anelwyd atynt. Rydym

ond wedi talu am staff pan mae yn angenrheidiol yn ôl gofynion ieuchyd a diogelwch neu bwrpas insiwrans.

Gobeithiaf fod hyn yn egluro unrhyw ddrwsych. Os oes gan unrhyw un gwestiwn penodol i mi, byddaf yn falch i'w hateb.

Y Trysorydd

RHODDION

£20: Mrs Maria Pritchard, 4 Rhes y Faenol, Llanberis er côf am Cledwyn, Selwyn, Norman ac Eurwyn.

£10: Teulu y diweddar Hugh William Tate, 3 Tai Caledffrwd, Clwt-y-bont.

£6: Alwyn S. Jones, Dwyfor, Nant Peris.

£5: Mai Davies, Bro Awel, Ffordd yr Orsaf, Llanrug; Mr a Mrs C. Williams, Afallon, Pontrhythallt; Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd, Cwm-y-glo; Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron, Dinorwig; Mr John H Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis

£3: Mrs P Jones, Llanberis.

£4: Teulu y diweddar Gwilym Rees Williams, Y Felinheli.

Cefnogwch ein Hysbysebwyrr

Wavell Roberts CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Datganiad ariannol grant Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Cyngor Gwynedd

DISGRIFIAD SWM YN WEDDILL DYDDIAD INFOIS DYDDIAD TALIAID

Balans dechreuol (derbyn 26/03/01) £1600.00 £1600.00 • Ymgynghoriad Sylfaen • £600.00 £1000.00
04/04/01 20/04/01 • Aelodaeth WAYC £25.00 £975.00 18/04/01 • Insiwrans Atebolrwydd y Cyhocdd
£57.75 £917.25 18/04/01 • Llogi minibus GYC (21/04/01) £31.55 £885.70 30/04/01 01/05/01 •
Bwyd/Diod ychwanegol £21.27 £864.43 29/05/01 30/05/01 • Hyfforddiant Dringo Plas Y Brenin £18.00
£846.43 31/05/01 20/06/01 • Hyfforddiant Sgio Plas Y Brenin £66.00 £780.43 31/05/01 20/06/01 •
Cyfarfod Rhieni yn y Ganolfan £10.00 £770.43 27/06/01 • Ail ymgynghoriad yn y Ganolfan £15.00
£755.43 27/06/01 • Llogi Minibus GYC (16/05/01) £18.90 £736.53 28/06/01 12/07/01 • Minibus diesel
(17/05/01) £8.53 £728.00 12/07/01 • Argraffu'r adroddiad a chopi Braille £61.50 £666.50 05/07/01
12/07/01

Mae'r datganiad yma yn dangos sefyllfa ariannol presennol fel ar y 14fed o Fedi 2001. Mae yn dangos yr holl drafodion a ddisgwyllir gan gynnwys y rhai sydd heb eu talu o'r cyfrif yma eto. Gall y ddogfen ymestyn dros fwy nag un flwyddyn ariannol ac nid yw'n ran o ddatganiad blynnyddol y cyfrifon.

CHWILOTA

GWYBODAETH AM DDEWI ORWIG



Daeth ymateb buan i'r cais y mis diwethaf am wybodaeth ychwanegol am Dewi Orwig. Roedd Mrs Mair Parry o Lanllyfni yn ei gofio, gan mai un o'r Crawia, Llanrug yw hi'n wreiddiol. Mae hi felly yn medru cadarnhau'r hyn a ddywedais am atgofion y ddiweddar Mrs Mary Lloyd Williams. Dywed Mrs Parry y byddai plant Crawia yn mynd heibio i dŷ Dewi Orwig ar eu ffordd i nofio yn Llyn Garreg Fawr ar afon Saint. (Pam tybed nad oedd plant y Crawia yn defnyddio Llyn Doctor, a oedd yn nêd?).

Ar lan y ffos o Lyn Doctor yr oedd y felin a thŷ Dewi Orwig. Yn ôl Mrs Parry, roedd y felin eisoes yn adfail, 'ond roedd tŷ Dewi Orwig (ni chlywais enw arall erioed ar y tŷ) mewn cyflwr da - tŷ a llofft iddo - ei dalcen i Afon Saint ac yn wynebu tuag at Lyn Tywod, gyda gardd o'i flaen a sawl llwyn o gwsberins ynddi - temtasiwn garw i'r plant yn absenoldeb Dewi Orwig.'

Erbyn y pumdegau, roedd y tŷ hefyd yn adfail, a does gen i ddim co' o lwyni gwsberins yno, ond byddai plant Pontrhythallt a'r Crawia am y gorau yn casglu eirin bwlas o'r coed o amgylch yr hen adfeilion!

Mae Mrs Parry yn cofio Dewi Orwig fel gŵr eiddil, gweddol dal, a mwstas ganddo. Roedd bryd hynny yn byw ar ei ben ei hun. 'Gwyddwn ei fod yn fardd,' meddai, 'a phrasaf o hynny oedd gwrando arno yn arwain cyfarfod yn Eisteddfod Nadolig Pontrhythallt.' Mae'n amlwg ei fod yn hen law ar arwain steddfodau lleol, ac yn cael parch a gwrandawriad gan y gynulleidfa. 'Safai ar ganol y llwyfan gyda'i law chwith ar ysgwydd bachgen ifanc gyda gwallt coch oedd yn barod i ganu. Dyna Dewi Orwig yn codi'i law a dweud "Rhowch chwarae teg i'r cochyn tal!" Aeth y bachgen yn ei flaen i ganu saith pennill o "un ych, un tarw, un blaidd, un ci..." a gorffen i gymeradwyaeth fyddarol.'

Gan Ms Ceridwen Foulkes, Hafod Oleu, Deiniolen y daeth

yr ail ymateb ynglŷn â Dewi Orwig. Daeth ar draws cofnod o gladdu chwaer iddo ym mynwent Macpelah. Ar y garreg fedd yn y fynwent mae penillion gan Dewi Orwig i goffáu ei chwaer a'i fam. Bu Winifred, ei chwaer farw'n ddeunaw oed ym mis Ionawr 1874. Dyma'r pennill ar ei charreg fedd gan ei brawd:

*Er dagrau fyrdd, na gweddi daer,
Ni ddeui byth yn ôl fy chwaer;
A hyn sydd wir, y rhaid i ni
Yn fuan iawn dy ddilyn di.*

Nodir mai merch oedd Winifred i John a Jane Owens, Caerau, Clwt y Bont. Nid yw Caerau nepell o'r fynwent.

Bu mam Dewi Orwig farw ym mis Chwefror 1881 yn 62 mlwydd oed, a cheir dau englyn o eiddo'i mab ar y garreg fedd:

*Pr Caerau angau deyrn ingol - addaeth
I ddwyn gwraig ragorol;
Rhyw wagder anarferol
Deimlir yn hir ar ei hól.*

*Ofer disgwyl a thrist wyllo - ddaw mam
Ddim i'r Caerau heno;
Caled yw gorfod coelio
Iddi fynd i'r glyn dan glo.*

Er fod y fam a'r ferch wedi eu claddu yn yr un bedd, nid yno y claddwyd y tad. Ble felly y claddwyd tad Dewi Orwig?

Anfonodd Ms Foulkes wybodaeth ychwanegol hefyd am fardd a gladdwyd yn Llandinorwig - Glan Padarn. Mwy amdano yn y rhifyn nesaf.

Llyisiau Bendithiol - Dail Cwrw.

Gan Dafydd Guto o Fethel y daeth mwy fyth o wybodaeth ynglŷn â'r dail hyn, a mentraf awgrymu mai 'dyma'r botanegydd all dorri'r ddadl!' Anfonodd doreth o wybodaeth fanwl a chyfeiriadau at wahanol ffynonellau sy'n cadarnhau mai dail y llawryfen (*bay tree* neu *laurel*) yw'r dail cwrw. Rwy'n gyndyn o gynnwys yr holl nodiadau a anfonodd Dafydd i mi, oherwydd byddai erthygl ganddo dan *Briwsion Byd Natur* ar ragoriaethau'r planhigyn hwn yn dderbyniol iawn gan ddarlennwyr yr 'Eco' rwy'n siŵr. Beth amdani, Dafydd?

Yn ei grynswth nodiadau mae hefyd yn cyfeirio at awgrym Mrs Lockett mai dail y planhigyn hopys (*hops*) oedd dail cwrw. Daeth ar draws yr enw yng nghofnodion Stâd y Faenol tua 1768, ble cyfeirir at Gae Hopsus. Tybed a gafodd y cae ei enwi oherwydd fod hopys yn cael eu tyfu yno?

Roedd yn eithaf cyffredin ers talwm i gaeau gael eu henwi ar ôl y math o gnwd neu dyfiant a geid ynddo. Mae hyn yn arbennig o wir am rai o gaeau plwyf Llanddeiniolen. Mae (neu roedd) Cae banadl yn Nhy'n Llan, Cae bedw yng Nglan yr afon, Cae clover ym Mlaen y Rhos, Cae cyll yn Nhyddyn Badyn, Cae heiddan yn Llwyn Bedw, Cae pus yn Erw'r Olyn, Cae ryegrass yn Nhan yr wylfa, Cae rhyg yn Nhyddyn yr hendre, ac amryw byd o gaeau eithin a chaeau rhedyn. Mae'r enw Cae clover yn awgrymu efallai fod ymdrech fwriadol wedi ei gwneud i wella ansawdd y borfa. Gyda llaw, ni welais yr enw Cymraeg, meillion, yn cael ei ddefnyddio o gwbl yn enw ar gae yn na phlwyfi Llanrug na Llanddeiniolen.

Llyfr Cofnodi Marwolaethau Llanberis.

Ar ddechrau Ionawr 1885 bu farw Richard Roberts, Newton Street, Llanberis. Fe'i claddwyd ym Môn. Nid yw'r cofnodwr yn nodi ble'n union ym Môn y'i

claddwyd. Efallai nad oedd yn adnabod Richard Roberts yn dda iawn, neu nad oedd yn gybyddus â holl lannau Môn!

Nid yw'n syndod gweld cyn gymaint o drigolion Llanberis yn cael eu claddu yn Llanrug - dyna'r drefn yn aml ers talwm.

Cyrhaeddodd rhai pobl oedran go dda: gwraig Charles Currie, Llwyncelyn, er enghraifft, yn 83 oed pan fu farw ddiwedd Ionawr 1885. Ond roedd llawer o fabanod a phlant ifanc yn marw hefyd - plentyn Evan Hughes, Rallt Goch yn marw'n wythnos oed yn Ebrill o'r un flwyddyn. A beth tybed fu achos marwolaeth John Rowlands, 'Plastirion gyt,' a fu farw 'yn y tren' ddechrau Rhagfyr 1885?

Diddorol yw nodi hefyd mai anaml iawn y mae'r enw 'Llanberis' yn cael ei ddefnyddio gan y cofnodwr. Mae bron pob stryd y cyfeirir ati yng 'Nghoed y Ddol'. Yn Llanberis roedd Charlotte Street, ond yng Nghoed y Ddol roedd Water Street, Newton Street, Turner Street a Goodman Street.

A beth oedd yr amgylchiadau trist ynglŷn â marwolaeth mam a'i phlentyn yn Lerpwl ym Mehefin 1886? Cofnodir fod 'merch John Hughes, Penbryn, Coed y ddol, yr hon oedd yn byw yn Liverpool, wedi dod yno am ieuchyd, ond yn marw.' Nid yw'n eglur iawn a oedd wedi mynd i Lerpwl 'am ieuchyd', neu ynteu wedi dod i Lanberis 'am ieuchyd'. Ni chofnodir chwaith ble cafodd ei chladdu, ond ar ddiwrnod ei hangladd, cofnodir marwolaeth y plentyn - 'bachgen i'r uchod a fu farw yr un dydd yr oedd ei fam yn cael ei chladdu.'

O fewn mis roedd trasiedi arall yn y pentref pan gofnodir fod Thomas Abraham Jones, Ceunant Street 'wedi crogi ei hun.'

Daeth 1886 i ben gyda marwolaeth 'modryb i Alarch Gwyrfaei', sef hen wraig 76 oed yn Llainwen (ni roddir ei henw); a chladdu plentyn 'i bobol ddiarth sydd yn byw yn Stabal goch.' Hyd yn oed ganrif dda yn ôl roedd Llanberis (neu Goed y Ddol) yn bentref rhy fawr i adnabod pawb oedd yn byw yno!

Cawn olwg ar gofnodion 1887 y mis nesaf.

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad ynglŷn â hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

Beth am
anfon Stori
neu Lythyr
i'r ECO

EMYR JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olaw, tanwydd solat
a thradis peipiau

44 GLANFFYNNAN, LLANRUG
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

STEPHEN JONES

+ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

Un funud fach

OFN RHYFEL.....

Ydach chi'n cofio'r lluniau pan etholwyd George W. Bush yn Arlywydd yr Unol Daleithiau? Roedd rhywbeth hynod anghyfforddus yn y lluniau ohono'n gwisgo 'bomber jacket' fel petai'n barod i arwain lluoedd yr America yn erbyn ei gelynion. Ond ychydig a feddyliai neb y byddai'r Arlywydd yn siarad am ryfel go iawn cyn pen y flwyddyn. Ac mae'r siarad hwn yn codi ofn o'r mwyaf arnom.

Aeth pythefnos heibio ers yr ymosodiad terfysgol yn Efrog Newydd a Washington. Mae lluniau hunllefus y gyflafan a achosodd y terfysgwyr wedi eu hargraffu ar feddwl pawb ohonom. Ond yr un mor hunllefus yw'r geiriau sy'n galw am ddial a rhyfel. Wrth gwrs bod angen darganfod pwy orchymynnodd ac a drefnodd y dinistr enfawr, ac mae'n rhaid eu dwyn gerbron y llysoedd rhyngwladol. Ond mae rhuthro i ryfel ddall heb wybod pwy yw a phwy fydd y gelyn, a'r sôn am ddefnyddio arfau biolegol a niwclear yn codi arswyd arnom. A dyma wledydd Prydain yn addo pob cefnogaeth i gyrchoedd America cyn gwybod unrhyw beth mewn gwirionedd am fanylion y cyrchoedd hynny. Gweddïwn am ddoethineb a phwyll i arweinwyr y gwledydd yn yr argyfwng mawr hwn.

Does neb eisïau ildio i derfysgwyr wrth reswm. Ond ar yr un pryd mae angen cydnabod bod yna resymau dros bob gweithred derfysgol. Er ffieiddio'r derfysgaeth mae'n rhaid i ni geisio gweld y rhesymau tu cefn iddynt. Agwedd anghyfrifol yw honno sy'n gwrthod ystyried y rhesymau hynny. Nid yw cydnabod anghyfiawnderau y mae America neu wledydd eraill yn euog ohonynt yn erbyn cenhedloedd a gwledydd yn golygu ein bod yn cydymdeimlo mewn unrhyw ffordd â'r terfysgwyr. Ond os mai ymateb i anghyfiawnderau gwleidyddol ac economaidd y mae'r terfysgwyr hyn mae'n rhaid bod yn ddigon doeth a dewr i wneud rhywbeth am yr anghyfiawnderau hynny, os ydynt yn bod. Nid ildio i derfysgwyr mo hynny, ond cywiro cam a gweithredu cyfiawnder yn y byd. Gwell hynny na thaflu'r byd ar ei bcn i ryfel gwaclyd a fyddai'n lladd miloedd os nad miliynau o bobl. Gweddïwn am gael ein gwared rhag rhyfel a rhag ofn rhyfel.

JOHN PRITCHARD

Côr Meibion Dyffryn Peris

Nos Fawrth, Gorffennaf 24 cafwyd noson amrywiol iawn yn y Mynydd Gwefru. Noson i lawnsio CD/Tâp y Côr oedd hon ond ychydig funudau ynghynt fe gafwyd y fraint o ymddangos yn fyw ar y teledu ar y rhaglen 'Heno' gyda Daloni Metcalf.

Arweiniwyd noson y lawnsio gan Arwel Jones (o Hogia'r Wyddfa) ac fe gyflwynwyd CD i'r rhai oedd yn gysylltiedig â'r gwneuthuriad sef Arwel Jones ac Annette Bryn Parri; Mr Dafydd Bullock; Mr Robert Lloyd; Mrs Dilys Baylis; Mr John Huw Huws; Mrs R. Morris; Mr Lyn Davies a Mr Dafydd Iwan. Diolch o galon i Seindorf Arian Deiniolen am eu cefnogaeth yn ystod y noson.

Dydd Sul, Gorffennaf 1 bu'r côr yn cymryd rhan mewn Cymanfa Ganu yn Y Felinheli,



Mair Huws a Hefina Jones gyda chriw y rhaglen "Heno"

yna nos Sul yr 22ain yn Eglwys y Plwyf, Betws-y-coed.

Dymunwn y gorau i'r côr ar eu taith i'r Almaen unwaith eto ar Hydref 20.

Anrheg

Nadolig cynnar
- C.D. Newydd y Côr

Os oes rhai angen CD neu dapiau o'r côr maent ar werth gan unrhyw aelod, neu cysylltwch ag:

Emerson Hughes ar
Llanberis 872040.

Anrhegion Nadolig campus i deuluoedd neu ffrindiau sydd wedi gadael yr ardal.

Cyflwynwyd siec o £150 tuag at Gronfa Charlotte Speedy, hefyd fe gyflwynwyd siec o £200 i Bwyllgor Carnifal Llanberis.



Mr Robert Lloyd a Mrs Dilys Baylis



Mair Huws arweinydd y Côr a chynhyrchydd y CD/tâp Emyr Rhys


BWS SHERPA



Un o fysiau Cwmni K.M.P. sydd wedi cymryd gwasanaeth Bws Sherpa o amgylch pentref Llanberis dros yr haf. Gyngor Gwynedd fu'n cyllido'r cynllun

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS

Dyffryn Peris
Male Voice Choir



O SIAMBAR SELWYN

Bu'r gwahoddiad i feirniadu yn Eisteddfod Pantyfedwen, Llanbedr-pont-steffan dros Wyl Banc Awst eleni yn gyfle i mi gael mynd unwaith eto i oedfa yng nghapel Soar y Mynydd.

Gan fod yr ŵyl arbennig hon yn parhau am bedwar diwrnod rhaid fydd aros yn Llanbedr dros y penwythnos. Bydd yr ŵyl yn dechrau gyda chyngerdd mawreddog ar y nos Wener, yna diwrnod o gystadlu drwy ddydd Sadwrn, gyda'r mwyafrif o'r cystadlaethau yn gyfyngedig i blant Ysgolion Cynradd a Ieuenctid talgylch yr Eisteddfod.

Fore Sul, cynhelir Gwasanaeth Undebol yn un o gapeli'r dref. Roedd Capel Seilo yn orlawn, a'r pregethwr gwadd oedd y Parchedig Ieuan Davies, cyn-weinidog Salem, Caernarfon. Melys oedd y sgwrs a gawsom am yr hen dref a hefyd am yr etholiad archdderwyddol a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis.

Y Parchedig Ieuan Davies oedd y cennad yn Soar y Mynydd yn y prynhawn hefyd ac, wrth gwrs, roedd y capel bach yn orlawn a'r croeso yn gynnes.

Y tro olaf i mi fod mewn gwasanaeth yn Soar oedd yn 1984 pan gynhaliwyd y Brifwyl yn Llanbedr. Roeddwn i'n gweithio i gwmni HTV ar y pryd ac yn aros dros yr ŵyl yn y Talbot yn Nhregaron. Cafodd Gwilym Owen, Eifion Lloyd Jones a minnau wahoddiad gan frodyr Nant Llwyd (pleri yr achos yn Soar) i ddod i'r gwasanaeth. Anfodlon oeddem i dderbyn gan y gwyddwn y byddai'r capel yn orlawn. 'Mi gadwn ni seddau i chi,' meddai'r brodyr. Ac yn wir i chi pan gyrhaeddodd y fangre unig, a'r capel yn orlawn, roedd 'na dri cap stabal ar un o'r seddau - oedd roedd 'na seddau cadw i Gwilym, Eifion a minnau.

Roeddwn i'n atgoffa'r brodyr o'r digwyddiad ac roeddynt yn cofio'r achlysur yn iawn. Dwi innan'n cofio'r prynhawn hwnnw hefyd - y diweddar brifardd Gwilym R. Tilsley yn pregethu ar y testun cwbl addas - 'Dyrchafaf fy llygaidd i'r mynyddocdd'. Yno hefyd yn 1984 y bu i Rosalind a Myrddin

ganu'r gân 'Soar y Mynydd' am y tro cynta yn gyhoeddus. Byddaf, mi fydda i wrth fy modd yn cael troi tua Soar pan fydda i ar ddyletswydd eisteddfodol yn Llanbedr neu Bontrhydfendigaid.

Ar y nos Sul yn Neuadd y Brifysgol, ceir cystadleuaeth i Ieuenctid o dan 30 oed, sef Y Rhuban Glas. Gofynnir i'r cantorion baratoi rhaglen heb fod yn hwy nac ugain munud, ac fe gynigir gwobr hael o £1,000 i'r enillydd.

Rhaid gweithio'n galed ar y dydd Llun. Rhagbrofion yn gynnar yn y bore, a'r cystadleuwyr yn dod o bob rhan o Gymru, a'r safon yn deilwng iawn o'r gwobrwyon hael a roddir.

Balch iawn oedd i o weld Hilma Lloyd Edwards yn codi unwaith eto ar alwad y corn gwlad. Rydw i wedi darogan ers tro byd y gwelwn ni Hilma yn y Gadair Genedlaethol yn fuan iawn. Llongyfarchion cynnes i Alun Williams (Mabon) ar ddod yn ail ar ganu emyn. Hefyd Wmffra ac yntau yn ail ar y ddeuawd, a Myra Turner yn cipio'r wobwr gyntaf o £150 ar y brif adroddiad. Tydi'r criw yma yn ffyddlon i eisteddfodau Cymru dudwch? Ac nid am y wobwr chwaith, ond am y pleser. Mi alla i sicrhau y ffyddloniaid hyn fod swyddogion yr eisteddfodau lleol yn gwerthfawrogi eich ffyddlondeb. Onibai am ein heisteddfodau lleol, fyddai 'na ddim prifwyl. A sôn am brifwyl yn sicr i chi, Eisteddfod Llanbedr ydi'r agosa at ein Gŵyl Genedlaethol.

Oherwydd y clwy traed a'r genau fe ohiriwyd chwe eisteddfod yr oeddwn i fod i feirniadu ynddynt ond rwy'n edrych ymlaen at gael mynychu eisteddfodau Marian-glas, Gwaun Gynfi, Treuddyn, Llandyrnog a Llanrhaeadr ym Mochnant. (Hon fydd y 400 eisteddfod i mi feirniadu ynddi). Ond dwi'n dal i gofio'r gynta yn hen ysgol Tan-y-coed, Penisa'rwaun, pan es i yno ar gefn beic o Fethel. Do bu bron i mi a throi yn ôl ger Pont Siarli - roeddwn i mor nerfus.

Cofiwch, y rhai ohonoch chi sy'n weithgar yn cynnal eisteddfodau lleol, bod yna Swyddog Datblygu wedi ei apwyntio yn y De a'r Gogledd.

Swyddog y Gogledd ydi Trystan Lewis, Awelfor, 6 Cilgant Conwy, Deganwy, LL30 1NS. Os oes angen unrhyw gyfarwyddyd arnoch ynglŷn â threfniadau eich eisteddfod, neu sut i gael cymorth ariannol - cysylltwch â Trystan. Mae o yn wyneb cyfarwydd ar lwyfannau eisteddfodau lleol a'r prif wyliau fel arweinydd Côr Pantycelyn a pharti Hogia'r Berfeddwlad, ac mae'n aelod o Gôr Meibion Maelgwn.

Pob lwc iddo yn ei swydd, a phob llwyddiant i'n heisteddfodau lleol led led Cymru, yn enwedig y rhai y bu'n rhaid eu gohirio y llynedd oherwydd y clwy traed a'r genau.

Ymweliad

Yn ystod Medi daeth yr archeolegwraig, y Dr. Anne Ross, sydd yn arbenigo mewn astudiaethau Celtaidd i Bontrhythallt i ymweld â'i chyfaill John Ellis Williams, Allt Riwth (Y Gwalch). Yr oedd hi'n awyddus i weld y tirwedd yn ardal Llanddeiniolen a'r Waen Winau, sydd wedi ffurfio cefndiroedd cymaint o gyfrolau'r awdur, yn enwedig *Clouds of Time* sydd yn olrhain hanes ei rieni yn ystod y Rhyfel Mawr; yn cynnwys nodweddion fel Dinas Dinorwig a chynleoliad yr hen ffynnon Chalybeate Cegin Arthur, ei hen gartref a'r cloddiadau mawn cyfagos, ynghyd â'r Buarth Gwarchae a'r cefnau gwenith: h.y. cymaint ag oedd modd ei weld drwy'r gwrychoedd a'r drysni sydd wedi tyfu allan o

bob rheolaeth, ac nid yn unig wedi llesteirio pelydrau'r haul ond yn fwgwd i fwynhad o unwaith olygfeydd pleserus.

Gwelodd y Doctor Ross hefyd gladdfa hynafiaid John Williams yn y Llan, naw o feddau yn cynnwys cist hen-hen-hen daid ei fab Siôn Rees, a maen W. J. Gruffydd, nawdd fardd yr eglwys a'r ywen, a gorweddfaen John Edward Williams, Rhyd y Fwch, cyn-glochydd y fam eglwys, bardd gwlad a hynafiaethwr, oedd wedi claddu cannoedd yno.

Dywedodd y Dr. Ross ei bod wedi mwynhau ei thaith ac wedi ehangu ei gwybodaeth o'r ardal unigryw yna. Yn ei chyfrol ddiweddaraf mae'n cydnabod cymorth John Williams am wybodaeth leol.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161

Dathlu Dydd Owain Glyndŵr yn y Waunfawr



Carole, Rheolwraig Blas y Waun, gyda Elin, Gareth ac Anwen oedd yn gweinyddu yn y wledd.

Roedd hi'n noson i'w chofio yn Antur Waunfawr nos Sadwrn, Medi 15, pryd y trefnwyd gwledd i ddathlu Dydd Owain Glyndŵr.

Mae bwyty Antur Waunfawr, Blas y Waun, yn enwog am ddarparu bwyd blasus, ond ar yr achlysur hwn cafwyd bwyd arbennig o sbesial, y cwbl wedi ei baratoi gan staff ymroddedig yr Antur.

Wedi gair o groeso gan y Llywydd, Mr R Gwynn Davies, daeth y gweinyddesau rhadlon o gwmpas yn cario plateidiau o fwyd maethlon, yn gawl, tatws a chig a llysiau eraill, pwddinau nefolaidd, a the neu goffi. (Heb anghofio ychydig o win Cymreig.)

Roedd y gweinyddesau siriol yn gwisgo dilladau addas at yr achlysur, yn union fel y byddai morynion Meistres Glyndŵr yn wisgo. Cawsant eu cynorthwyo gan ddau o weithwyr yr Antur, Anwen a Gareth, a hwythau hefyd yn edrych yn smart ryfeddol yn eu gwisgoedd lliwgar.

Cafwyd cerddoriaeth o naws

arbennig rhwng pob cwrs gan Idris (ffidil) a Cass (crwth).

Wrth i ni gael ein digonni, traddodwyd anerchiad gan yr hanesydd, Bob Morris, yn olrhain peth ar fywyd a gyfa Owain, ac fel y datblygodd o fod yn dirfeddianwr gweddol ddi-nod i fod yn Dywysog ar y rhan fwyaf o Gymru. Rhaid cofio ei fod yn un â gwaed tywysogion Cymru yn ei wythiennau.

Yn fwy na dim, meddai Bob Morris, roedd Glyndŵr yn wir wladweinydd gyda gweledigaeth. Nid un filitaraidd a gwleidyddol yn unig, ond gweledigaeth grefyddol a diwylliannol, er mwyn sicrhau Cymru amgenach. Cyfeiriodd at ei awydd i greu Eglwys genedlaethol i Gymru, yn annibynol ac yn rhydd o afael Caergrawnt, ac am ei freuddwyd i sefydlu dwy brifysgol i Gymru, un yn y gogledd a'r llall yn y de.

Diddorol oedd clywed am Owain yn gohebu a gwneud cytundebau efo brenhinoedd o wledydd eraill, yn arbennig Brenin yr Alban a Brenin Ffrainc. Fe gofia pawb am y

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



**STRYD FAWR
LLANBERIS**

(01286) 872777

annette@peris.co.uk

- * Gwasanaeth effeithlon a chyfeillgar
- * Gwylliau wedi eu teitlwra i ateb anghenion yr unigolyn, teuluoedd neu grwpiau
- * Trefniadau hedfan yn unig
- * Penwythnosau yn theatrau Llundain
- * Y pecyn cyflawn, h.y bws-mini a ddarws y tŷ, trefniadau hedfan, gwesty neu apartment, llegi car, ac ymriant
- * Arbenigedd mewn trefnu teithiau tramor i gorau ac i ysgolion
- * Bargeinion munud olaf
- * Teithiau tramor gyda chanterion o Gymru

Am fanylion pellach, ffoniwch Annette neu Bethan

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod y Sefydliad yn festri Croesywaun ar Fedi 6. Croesawodd Mrs Mair W. Williams, y Llywydd, yr aelodau i'r cyfarfod cyntaf ar ôl gwyliau'r haf.

Estynnodd y llywydd longyfarchiadau'r aelodau i Mrs Anne V. Williams, yr ysgrifennydd, ar ei llwyddiant yn yr arholiad Cymraeg ac hefyd i'r holl blant a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau. Darllenwyd y Llythyr Misol a nodwyd y materion perthnasol.

Cafwyd sgwrs, gyda sleidiau, gan Mr Geraint Jones o Ganolfan Cyngor Effeithiolrwydd Ynni Gogledd Cymru ar sut i arbed ynni yn ein cartrefi ac i ysgafnhau ein biliau ynni a chafwyd cyfle i brynu bylbiau ynni yn rhad. Diolchwyd i Mr Jones gan y Llywydd. Enillwyd y raffl, wedi ei rhoi gan Mrs Menna McDaid, gan Mrs Wenna Edwards. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Hydref 4. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhelir cyngerdd yn y Ganolfan nos Lun, Hydref 8 am 7.30 o'r gloch gan Barti Clychau'r Grug o ardal Bethel a Llanrug, o dan arweiniad Glenys Griffith. Mae'r parti wedi bod yn diddanu cynulleidfaoedd yng ngogledd Cymru ers nifer o flynyddoedd

bellach ac yn cael gwahoddiad i ddiddori'r ymwelwyr yn un o westai bro'r Eco yn rheolaidd. Noson agoriadol y Gymdeithas Llenyddol fydd hon a gobeithir y bydd y rhaglen sydd wedi ei threfnu am y gaeaf yn denu aelodau hen a newydd i'r cyfarfodydd misol. Llywydd y cyngerdd fydd Meira Turner. Gobeithio y ceir cefnogaeth deilwng i'r Gymdeithas - y cyfan am deirpant.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Rhian Jones, Stad Tref Eilian sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

CROESO ADREF o'r ysbyty i Mr Meirion Williams, Stad Tref Eilian; Mr Emlyn Williams, Stad Croesywaun a Mr Wyn Griffith, Ger y Nant. Hyderwn y byddwch yn cryfhau a gwella o ddydd i ddydd.

PLESER I'R PLANT. Rwy'n siŵr fod pob plentyn bach wedi gwirioni gweld yr offer lliwgar newydd yn y cae chwarae ger Y Ganolfan. Gobeithio'n wir y caiff plant, am flynyddoedd i ddod, bleser o gael chwarae yno.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at Mr Derek Dale, Stad Tŷ Hen yn ei brofedigaeth o golli ei dad yn ddiweddar.

llythyr enwog a anfonodd at y Brenin hwnnw yn 1406, 'Llythyr Pennal' fel y mae'n cael ei alw. Arddangoswyd y llythyr gwreiddiol, sydd ar gadw ym Mharis, yn y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth, yr haf diwethaf.

Roedd Glyndŵr yn dd-ios yn filwr dawnus, ond yr oedd hefyd yn ŵr a gafodd addysg dda ac yn un oedd yn deall amryw o ieithoedd. Arwydd o hynny yw iddo gael ei alw'n dyst mewn achos cymhleth ynglŷn â heraldiaeth.

Ond 'does dim o'i hanes wedi'r flwyddyn 1412 ar gael. Y dybiaeth yw iddo fynd i fyw at ei ferch, Alice Scudamore, a'i theulu yn Monnington, swydd Henffordd, ac yno, y mae'n debyg, y bu farw. Ond 'does neb

a ŵyr pa bryd y bu hynny, na man ei gladdu.

Trefnwyd cystadleuaeth ddifyr i'r gwahoddedigion. Rhanwyd copïau o ddarlun o gofologfn Glyndŵr yn yr Amgueddfa Genedlaethol, gan herio pawb i roi geiriau pwrpasol yn ei enau. Beth, tybed, y mae'n ddweud?

Yr enillydd oedd Nia Huws, Llanwnda, gyda'r geiriau 'aros am funud, dwi isio ffacio'r llythyr yma i Ffrainc.'


Wrth ddiolch i bawb a weithiodd mor galed i sicrhau llwyddiant y Dathlu, ategodd Mr Gwynn Davies y syniad a fynegwyd yn gynnil gan Nia Huws. Gŵr i'n hoes ni, fel i'w oes ei hun, yw Owain Glyndŵr.

John Roberts, Groeslon

**H. E. HUGHES
A'I FEIBION**

**Bwthyn Gadlys
LLANBERIS**

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

EGLWYS ST HELEN.

DISGO'R PLANT. Fe gynhaliwyd Disgo yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Medi 21 gyda'r DJ's Llion ac Eric Jones. Cafwyd noson llawn hwyl gan bawb. Diolch am eich cefnogaeth.

YSGOL SUL. Eisoes mae'r Ysgol Sul wedi aildechrau yn Neuadd yr Eglwys bob dydd Sul am 10.30 o'r gloch. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

GWIBDAITH I GEMAES. Fe fydd gwybdaith yn mynd i'n gefaill-blwyf, Cemaes ddydd Sul, Medi 30. Fe fydd bws yn gadael yr Eglwys am 1 o'r gloch. Manylion pellach gan swyddogion yr Eglwys.

DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAEAF. Mae paratodau ar gyfer yr Ŵyl mewn llaw ac fe gyhoeddir manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

YSGOL GYMUNED. Hoffwn gychwyn y mis yma trwy longyfarch ein cyn-ddisgyblion am eu llwyddiant yn eu gwahanol arholiadau yn ddiweddar. Braf yw cael clywed am lwyddiant y bobl ifanc yma sy'n gweithio mor galed i lwyddo, ac yn ymestyn y safon yn flynyddol gyda'u hymdrechion er gwaethaf y sylwadau cas a wneir gan rai yn y cyfryngau fod safonau yn gostwng.

Pleser oedd cael croesawu rhyw ddwsin o blant newydd i wahanol ddosbarthiadau ar ddechrau mis Medi. Gobeithio y bydd pob un ohonynt yn hapus iawn yn ein plith.

Cyfnod o gyffro a phrysurdeb oedd diwedd y tymor diwethaf. Trwy waith caled Mrs Paula Owen fe lwyddodd BL5 a 6 gyda'u profion beic. Llwyddodd yr ysgol i gwrdd â gofynion y Gronfa Cyfleoedd Newydd ym myd technoleg gwybodaeth ac i ennill y Marc Ansawdd. Hefyd bu Arolygwyr Estyn yn yr ysgol yn arolygu safon y dysgu a'r addysgu gan gynnwys datblygiad cymdeithasol a moesol y plant. Yn gyffredinol roedd yr Arolygwyr yn hapus iawn gyda'n gwaith ac edrychwn ymlaen i adeiladu ymhellach ar yr hyn a wneir ac a gyflawnwyd eisoes.

I gloi, carwn ddiolch i'r staff i gyd ac i'r plant am eu gwaith caled yn

ystod y flwyddyn a aeth heibio ac i'r Llywodraethwyr a'r Cyfeillion am eu cefnogaeth parod. Edrychwn ymlaen i flwyddyn arall yng nghwmni'n gilydd.

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i bawb ohonoch a'n cofion anwylaf atoch igyd.

YSGOL SUL. Croesawyd aelod bach ifanc i'r Ysgol Sul atom ar Fedi 17 sef Tomos, mab bychan Sioned a Gwyn. Does ond ychydig amser yn ers pan gafodd ef a'i gyfnither, Elin Prysor, eu bedyddio yn yr Ysgol Sul a dyma fo yn aelod hapus, ac yn amlwg wedi mwynhau ei hun. Gobeithio y cawn ei gwmni yn gyson o hyn ymlaen, rydym bob amser yn falch o dderbyn plant bychain.

Fore Sul, Medi 17 cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i goffáu'r rhai a fu farw yn nhrychineb fawr Efrog Newydd ac i gydymdeimlo'n ddwys â'r teuluoedd a'r ffrindiau. Goleuwyd kannwyll a bu ynghyn hyd ddiwedd yr Ysgol Sul.

CODI ARIAN I HELP KATALAU. Bydd aelodau'r Ysgol Sul, ynghyd ag aelodau Ysgolion Sul Deiniolen a Chwm-y-glo, yn cynnal Darllen Noddedig er budd Katalau Singano o Kenya.


Ers 1974 anfonir arian, trwy Gymdeithas Action Aid, i helpu plentyn tlawd yn Kenya i dderbyn addysg. Anfonir £180 i'r Gymdeithas bob mis Medi. Bwriedir codi'r arian trwy gael Ysgol Sul gyda'n gilydd yn festri Ebeneser, Deiniolen am 10.00 o'r gloch fore Sul, Medi 30. Yn ystod yr amser cynhelir cyfnod o ddarllen distaw noddedig. Gwahoddir holl aelodau'r Ysgolion Sul, y plant a'r oedolion, i ddod â'u holl Feibl neu lyfr storïau crefyddol i gymryd rhan. Os caiff pawb nifer fach o noddwyr byddwn yn siŵr o gasglu digon o arian am addysg Katalau.

Edrychir ymlaen am fore bedithiol o ddarllen, canu, fideo, cwis ac, wrth gwrs, diod a bisgedi. Ymunwch i helpu plentyn llai ffodus na chi.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Mrs Iris Williams, Bryn Rhydd ar ennill gradd M. Addysg.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Gwenllian Parri, Tawelfa (gynt) ar ennill gradd Doethuriaeth ym

Carnifal Penisarwaun



Rhai o'r cystadlewyr yn y gystadleuaeth gymnasteg

Mhrifysgol Bangor. Deëllir fod Gwenllian, Carl, Efa ac Iago yn gobeithio treulio blwyddyn yn Seland Newydd gan fod Gwenllian wedi derbyn swydd yno. Pob dymuniad da i chi fel teulu a phob dymuniad da i ti Gwenllian yn dy fenter.

PWYLLGOR NEUADD. Nos Wener, Medi 14 trefnwyd taith hynod o ddiddorol gan Leslie Larsen. Daeth nifer fawr o oedolion a phlant ar y daith hanesyddol, ynghyd â staff yr Ysgol Gymuned. Cyn cychwyn cafwyd cefndir y gair 'coch' a welir yn amlwg yn nifer o enwau'r pentref a chafwyd chwedl y Ddraig Goch a'r Ddraig Wen.

O'r ysgol ac ymlaen i safle a elwir yn 'Lloc' lle roedd pwmp dŵr y pentref 'slawer dydd. Cyfeiriwyd hefyd at hen gwt hers y pentref yn Hafan. Ar y ffordd soniwyd am y ffynhonnau yma ac acw.

Wrth Y Gors Goch cawsom ar ddeall mai canlyniad Oes y Rhew tua 10,000 o flynyddoedd yn ôl ydi'r Gors. Cyn hyn roedd Afon Cegin yn llifo i'r dyffryn lle mae Afon Seiont yn rhedeg rwan. Wedi'r dadmer mawr newidiodd cwrs Afon Cegin i gyfeiriad Pentir, Bangor ac Aber Cegin gan redeg yn araf a chreu y gors. Dadlennwyd mai yn Afon Cegin, ger Braichiffri, y boddwyd Dafydd Ddu Eryri wrth iddo ddod adref o Fangor. Fe'i claddwyd ym mynwent Llanrug.

Tristwch i'r oedolion a'r plant oedd nad oedd modd mynd at Ffynnon Cegin Arthur, un o ffynhonnau enwocaf Cymru ond yn anffodus wedi ei difetha'n llwyr oherwydd y coed bythwyrdd a blannwyd yno. Yr oedd dŵr y ffynnon yn dda at gryd y cymalau, iselder ysbryd, anhwylder yr ysgyfaint a llawer mwy. Roedd y Dr. A. Wyn Williams o Gaernarfon a Llundain â'i fryd ar wneud Penisarwaun yn sba fel Trefriw a Llandrindod, ond ni wireddwyd ei freuddwyd.

Roedd y plant yn awyddus i wybod pam yr enw Cegin Arthur. Eglurodd Leslie 'ar wyneb y ffynnon roedd ewyn trwchus brown-goch ac yn aml tarth o gwmpas y lle, yn union fel cawl yn berwi yng Nghegin Arthur'. Wrth roeddm, haeam sy'n achosi y lliw coch a honnir yn lleol bod y rhan yma o'r pentref yn denu mellt!

Trefnodd Leslie gyda pherchennog Pen Dinas ein bod yn cael ymweld â safle'r hen gaer o Oes Cynnar yr Haeam (600 c.c - 100 o.c). Erbyn hyn mae'r lle yn ddraen, mieri a rhedyn. Ond roedd



Jên a'i beic

pawb yn gwrandao'n astud ar y disgrifiad manwl o'r lle fel Cae'r Ffos a Chlawdd gyda chytiau o gwmpas. O'r hen ddinas mae'r olygfa yn wych ac ar ddiwrnod clir mae mynyddoedd Wicklow i'w gweld.

Yn sicr bu hon yn daith hanesyddol fendithiol i bawb a diolchir i Leslie am drefnu ac am ofalu bod taflenni manwl ar gyfer pob un.

Y CLWB CANT. Tynnwyd Clwb Cant Medi a'r enillwyr oedd 1. Mrs G. Jones, 25 Bryntirion; 2. Mrs Gwen Roberts, Weirglodd Goch; 3. Mrs Rhian Roberts, Bryn Afon, Pen-y-groes.

PRIF ENETH. Llongyfarchiadau i Erin Eifion Williams ar ei phenodi'n Brif Ddisgybl y Genethod yn Ysgol Brynrefail. Pob dymuniad da i ti yn dy swydd gyfrifol.

EISTEDDFOD BENTREF

Dydd Sadwrn, 3 Tachwedd am 1 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned.

Dalier Sylw:
Mae'r dyddiad a'r amser wedi newid

Bydd egwyl a lluniaeth ysgafn ganol y prynhawn.

Croeso i bob oedran

Am fwy o fanylion, rhaglenni a thestunau cysylltwch â:

Elizabeth Woodcock
(01286) 870121

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llefft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390



MYFYRIWR Y FLWYDDYN.

Llongyfarchiadau i Menai Jarvis, Dôl Elidir, a ddewiswyd yn Fyfyriwr y Flwyddyn ar y cwrs Therapi Harddwch (Lefel 3) yng Ngholeg Menai. Dymuniadau gorau gan y teulu oll.

DIOLCH. Dymuna John H. Hughes, Tan y Clogwyn ddiolch yn ddiifant am bob arwydd o garredigrwydd a dderbyniodd oddi wrth ei deulu, cymdogion a chyfeillion yn dilyn yr anaf a gafodd i'w goes.

UNDEB Y MAMAU. Ar ôl seibiant yr haf ail gychwynwyd sesiwn y gaeaf bawn dydd Mawrth, Medi 4 yn y Rheithordy. Cymerwyd y gweddïau a'r gwasanaeth agoriadol gan y Rheithor. Croesawyd Mr Griff Roberts o Lanrug (Llanberis yn enedigol) atom a chafwyd pnawn difyr iawn yn ei gwmni. Sleidiau o Fethlehem a Chaersalem a mannau eraill o'r Dwyrain Canol oedd ganddo a chan ei fod wedi treulio dwy flynedd yn yr ardal fel milwr yn 1948, roedd ei wybodaeth yn wych gan egluro popeth yn fanwl. Pnawn diddorol yn wir.

Trafodwyd ychydig o faterion busnes ac hefyd penderfynwyd mynd am bryd o fwyd yn hytrach na chael trip eleni.

Cydymdeimlwyd â Mrs Gwen Williams o golli ei gŵr Ron ym mis Gorffennaf.

Y swyddogion oedd yn gyfrifol am y lluniaeth ysgafn ac enillwyd y raffl gan Mr Derek Jones. Mrs Audrey Evans ddiolchodd i Griff ac eiliwyd gan Mrs Betty Humphreys.

Diweddwyd drwy adrodd Y Gras. **CYSTADLEUAETH FLODAU.** Am yr ail flwyddyn yn olynol, fe gynhaliwyd cystadleuaeth flodau i fusnesau'r ardal gan y Consortiwm Busnes.

Tu ôl i'r gystadleuaeth mae ymdrech i wella golwg y pentref. Mae'r amgueddfa lechi wedi cyflwyno dau dlws i'r enillwyr eu dal am flwyddyn ac mae'r Consortiwm am gyflwyno plac parhaol i fynd gyda'r tlysau.

Yr enillwyr eleni, ynghyd â chanmoliaeth uchel, oedd Tŷ Caxton (Siop Electric) a Marteg.

CYMDEITHAS YR EGLWYS. Ail ddechreuwyd y tymor newydd. Nos lau, Medi 6. Yn y Gadair roedd Mrs A.P. Jones ac agorwyd gyda gweddi gan Mrs Moreen Lennon.

Cyflwynodd Ann y gŵr gwadd, sef Mr Huw Hardy, Paramedic gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans ym Mangor, yn dweud am y gwaith arbennig iawn y maent yn ei wneud. Diolchwyd iddo ac i Heulwen Edwards ac Evelyn Williams am y baned a'r raffl gan y Rheithor a'r enillydd lwcus oedd Mrs B. Hughes.

PLAS PENGWAITH. Hoffai staff y Cartref ddiolch yn fawr iawn i Mr a Mrs J. Williams, Fferm Minffordd, Llanrug am eu rhodd garedig i Gronfa'r Staff er cof am Mr Thomas Williams.

Yn yr ysbyty ar hyn o bryd mae Mrs May Bannister a dymunwn wellhad buan iddi. Wedi dod yn ôl adref atom mae Mrs Clara Jones a Mrs N.M. Owen.

Mae Mrs D. Parry wedi dod atom i aros a dymunwn roi croeso cynnes iddi.

Ar Fedi 13 cynhaliwyd cwis diddorol yn y Cartref. Hefyd cwrs Symud a Thrin – hwn yn rhoi hyfforddiant i'r staff ar sut i godi'n saff.

Ar Fedi 14 cafwyd noson ddifyr yng Ngwesty Fictoria yng nghwmni grŵp Geriatrics, Moonshine, Elwyn a Gareth a Karaoke gyda R-John. Gyda diolch yn fawr iddynt am eu hamser.

Gwnaed elw sylweddol i'r cartref a diolchwn yn fawr i Lorraine am drefnu'r noson ac i holl gefnogwyr y noson a'r raffl.

Yn dathlu eu pen-blwydd y mis



Lesley Roberts (chwith) a Carol Torr, enillwyr cystadleuaeth Llanberis yn ei Blodau, 2001.

hwn mae Mrs M. Willims a Mrs F. Fisher. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn iddynt.

DYMUNA Maria Pritchard, 4 Rhes y Faenol ddiolch yn gynnes i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch hefyd i Marion am ei chymorth, Aneurin

am y wledd, Eirian am y deisen a'i chyd-aelodau yn Eglwys Nant Padarn am y blodau. Diolch yn fawr iawn i bawb.

HOFFAI Margaret, 51 Dôl Elidir ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl cardiau a'r anrhegion a gafodd ar ei phen-blwydd yn 60 oed ym mis Awst.

Y Carnifal



Cystadleuwyr cyhyrog yn malu pianos.



Mr Aneurin Jones, Cadeirydd Côr Dyffryn Peris yn cyflwyno sicac am £200 i Gadeirydd y Canrifal, Mr Arfon Phillips.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'

TEGANAU, CARDIAU

MELYSION

ANRHEGION



Bara Ffres

Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyraains ac ati



BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

CEIROPODYDD

Mrs S. Groom MSSCh, MBChA

Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed

Triniaeth ar gyfer:

Traed Poenus; Croen Caled; Verruca; Cyn a Chroen Caled; Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thyllino Traed.

Ffôn: (01248) 605450 neu

07747 696267 (symudol)

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

NEWYDDION Y CAPEL. Gyda'r gwaith adeiladu wedi dechrau bydd yr holl wasanaethau tan y Gwanwyn yn Ystafell y Bwrdd, i fyny'r grisiau, yn Garej Gwalia. Bydd yr Ysgol Sul pob bore Sul am 11.00. Ceisir cynnal un gwasanaeth arall pob mis. Ym mis Medi bydd y Parch Ronald Willims yn pregethu am 2.00 y prynhawn dydd Sul, 30 Medi.

CRONFA CANOLFAN A CHAPEL CAEATHRO. Bydd noson Lobsgows a Gwin yng Ngharrog, Rhosbach am 7.30 nos Wener, 19 Hydref trwy garedigrwydd Bethan a Dafydd Iwan. Mynediad £5.00 a'r elw at Gronfa'r Ganolfan a'r Capel. Tocynnau oddi wrth Eryl Jones, Huw Ceiriog, Deiniol Huws, Clive James ac Ifor Hughes.

CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned y Waunfawr yn Y Ganolfan, Waunfawr ar 3 Medi. Roedd y Cynghorwyr Vera Roberts a Clive James yn bresennol. Mae'r Cyngor Sir yn archwilio cyflwr llwybr Glanrafon Bach cyn ei arwyddo fel llwybr cyhoeddus. Nid oedd Cyngor Gwynedd wedi ateb y cais am bafin ar ochr y ffordd rhwng mynedfa Glangwna a Phont Llanbeblig. Mae'r Cyngor Cymuned wedi gwneud trefniadau i dorri'r gwair ar y man chwarae newydd. Yn amodol ar brisiau rhesymol bydd y Cyngor yn 'peintio' yr hysbysfwrdd, y sedd a tho'r lloches bws. Mae'r Cyngor am bwyso ar Gyngor Gwynedd i dorri'r ôl-dyfiant ar flaen ac ochr 1 Bryn y Gof a thorri'r coed ar hyd

ochr y maes parcio rhwng y gyffordd a chae **Pwll y Bar** er mwyn goleuo'r safle yn ystod y nos.

LLONGYFARCHIADAU. Trigolion ieuengaf y cylch erbyn hyn yw Dafydd, mab newydd anedig Gwenno ac Eryl, Bryn Mair a Shannon Mai, merch i Sharon a Jason, Bryn y Gof.

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Medi oedd: £40 (71) Clive James, Hafan; £25 (30) Glyn Evans, Llwyn Alice; £15 (52) Colette Donaldson, Homes; £5 (93) Rosie Lloyd, 2 Rhos Bach.

MAN CHWARAE'R PLANT BACH Ddeng mlynedd ar ôl i Shaun Atkinson, Wendy Peris a Vera Roberts ymweld â swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Arfon mae'r man chwarae i blant bach wedi agor! Diolch iddynt, a'r cyn-gynghorydd Eurig Wyn, ASE. Cyngor Gwynedd biau'r safle a'r cyfarpar, sydd ar lês i Gyngor Cymuned Waunfawr. Ond Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro sy'n gyfrifol am y costau o ddydd i ddydd a rheolaeth ddyddiol.

GRANTIAU CYMUNEDOL. Dylai cymdeithasau lleol gyflwyno unrhyw geisiadau ar gyfer cymorth ariannol trwy Gyngor Gwynedd Waunfawr cyn 5 Hydref. Enw a chyfeiriad y Clerc yw Sian Thomas, Tŷ Ysgoldy, Y Waunfawr.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**



Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol

TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Ffôn: 871833 • Symudol: 07778 127394

DIOLCH o galon!

Ydych chi wedi colli cyfle rhywdro i ddweud
"Diolch o galon"?

A hoffech chi droi'r cloc yn ôl a chael cyfle i wneud?

Oes 'na rywun yn eich ardal chi wedi gwneud
cyfraniad arbennig, neu wedi rhoi gwasanaeth diflino,
a eiddo haeddu diolch?

Oes 'na rywun sy'n haeddu'r cyfarchiad
"Diolch o galon" am ba reswm bynnag?

Os oes cysylltwch â ni ar unwaith ond peidiwch â
dweud wrthyn NIHW!

Cwmni Telcdu Tonfedd Eryri
Hen Ysgol Aberpwll • Ffordd Bangor • Y Felinheli •
Gwynedd • LL57 1SD

Ffôn: 01248 671167

E-bost: marian.elis@ff-eryri.demon.co.uk

Newyddion

LLANRUG

(parhad)

MERCHED Y WAWR. Ar Fedi 11 croesawyd pawb i gyfarfod cyntaf y tymor o Ferched y Wawr a gynhaliwyd yn y Ganolfan Gymuned gan y Llywydd, Megan Roberts. Cydymdeimlwyd â Menna, Anna Bethanne. Llongyfarchwyd plant yr ardal ar eu llwyddiant mewn arholiadau a dymunwyd yn dda i fab Eryl ar ei briodas. Diolchwyd i bawb a fu'n casglu tuag at Sefydliad y Galon.

Gwraig wadd y noson oedd Eira Wyn Huws, a rhoddodd gyflwyniad bwyiog a bryllymus inni ar gotwm. Daeth â nifer o eitemau i'w dangos i ni - cwiltiau, dwy olwyn nyddu, lluniau, planhigion

TAN Y COED

DYMUNA Llinos a Neil ddiolch o galon am y caredigrwydd a dderbyniwyd ar enedigaeth Deio.

cotwm, cribau cotwm a nwyddau wedi eu gwau a'u gwnio.

Diolchwyd i Eira gan Meryl. Diolchodd Heulwen i Menna, Olwen, Eileen ac Eirianwen am wneud y te. Enillwyd y raffl gan Eileen.

Ar gyfer y cyfarfod nesaf ar Hydref 9 gofynir i bawb ymgynnull y tu allan i Archifdy Caernarfon am 7.20 o'r gloch.

Mudiad 'Sbardun, Bethel – Datgelu gwybodaeth

Carem fel mudiad ddweud i'r ateb canlynol ein cyrraedd ar Fedi 3 oddi wrth Syrffwr Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd sy'n ateb ein ymholiad ar Gorffennaf 16 ynghylch ail darmacio ffyrdd amgylchynnol Bethel, yn enwedig y rhai a amharwyd arnynt gan dyllu pan osodwyd peipiau nwy a dŵr yn y pentref ac sy'n fater a godwyd droeon (ran llythyrau) hefo'r Adran Briffyrdd gan Ddafydd Guto Ifan:

'Deallaf fod y gwaith tyllu yma wedi ei wneud tua 10 mlynedd yn ôl, o dan y "Public Utilities and Street Works Act 1980". Erbyn hyn nid yw'r Ddeddf yma yn rhoi pwerau digonol i'r Cyngor fedru gorfodi'r cwmnïau gwasanaethau cyhoeddus i wneud unrhyw waith atgyweirio pellach. Serch hynny, bydd fy swyddogion yn anfon y Rhybudd priodol iddynt i ymdrechu cael

cwblhau'r gwaith. Os yw hyn yn aflwyddiannus bydd wedyn yn fater i'r Syrffwr Ardal asesu'r sefyllfa yn erbyn ei raglen gwaith fel mae ei adnoddau ariannol yn caniatáu.

Er eich gwybodaeth mae'r sefyllfa gyfreithiol wedi gwella o dan y Ddeddf ddiweddaraf, sef y "New Road and Street Works Act 1993" ac mae'r cwmnïau gwasanaethau cyhoeddus nawr yn gyfrifol yn llawn am safon eu gwaith adfer i'r ffordd ar ôl 1 Ionawr, 1993 pan ddaeth i rym, sef rhywbeth y buwyd yn coffio'n galed amdano ers pum – chwe mlynedd neu ragor!

Ysgrifennwyd gan Fudiad 'Sbardun, Bethel at yr Adran Briffyrdd yn diolch am y wybodaeth uchod ac yn annog 'gweithredu ar yr argymhellion a'r pŵer sydd yn neddf 1993'.

Mudiad 'Sbardun Bethel
Cymru Annibynnol
08.09.2001

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846



**CASTELL BOWNSIO
AR GYFER
POB ACHLYSUR**

Down â fo atoch
a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE

yn LLANRUG
ar gyfer eich
holl anghenion

- Trin cyrff ceir
- Gwaith Mecanyddol
- Gwasanaeth/Service
- Valleting

(01286) 870814

YSGOL BRYNREFAIL

ENILLWYR CLWB CANT

Gorffennaf 2001: 1. Mr David Lansley, Ceunant; 2. Mr Eifion Harding, Penisarwaun; 3. Mr Adrian Wakeham, Llanberis.
Awst 2001: 1. Mrs Margaret Williams, Cwm-y-glo; 2. Mr Glyn Mowll, Llanrug; 3. Mr Eifion Harding, Penisarwaun;
Medi 2001: 1. Miss Betty Roberts, Gaerwen; 2. Mr Adrian Wakeham, Llanberis; 3. Mrs Lowri Roberts, Tregarth.

Trip i Slovenija

Mae Ailsa Orlik newydd ddychwelyd o Slovenija gyda charfan pêl-droed Cymru (dan 19). Treuliodd wythnos i ffwrdd, dau ddiwrnod yn ymarfer yn Bishm Abbey a gweddill yr amser yn Slovenija.

Chwaraeodd y tîm ddwy gêm, un yn erbyn Slovenija a'r llall yn erbyn Estonia. Enillodd tîm Cymru y ddwy gêm, 1-0 yn erbyn Slovenija a 6-2 yn erbyn Estonia, ac fe sgoriodd Ailsa dair o'r chwe gôl.

Mae'r tîm yn mynd ymlaen rwan i chwarae yn Poland y mis nesaf.

Tipyn o gamp Ailsa, a phob lwc yn y gemau i ddod.

Gêm bêl-droed Bl 8 a 9 yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen

Am ugain munud wedi tri dydd Llun, Medi 17 chwaraeodd tîm pêl-droed Ysgol Brynrefail Bl. 8 a 9 yn erbyn ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon.

Hon oedd y gêm gyntaf o'r tymor newydd ac roedd pawb yn nerfus ond eto'n edrych ymlaen. Fe enwyd Iwan Machno yn gapten ac o'r chwiban gyntaf, chwaraeodd Brynrefail yn well na'u gwrthwynebwyr, yn amddiffyn ac yn ymosod yn dda.

Wedi i Guto Llywelyn ac Andrew Jones ddod yn agos, cic o'r smotyn a roddodd eu gôl gyntaf i Brynrefail, Guto yn ei sgorio wedi i Andrew gael ei dynnu i lawr. Yn fuan, sgoriodd Guto eto i'w gwneud yn 2-0 gyda gôl wych. Cododd y bêl dros ben y gôl-geidwad ar ôl mynd heibio dau amddiffynwr.

Ychydig wedi'r cwyl hawliodd Guto ei drydedd gôl gyda argyrd ryfeddol o gie rydd wedi i Emlyn Wyn Roberts ddod yn agos.

Dath Dafydd Meredydd yn agos iawn, y traws yn unig yn ei gadw allan, wedi iddo guro'r gôl-geidwad gyda chic yr holl ffordd o'r asgell dde. Llwyddais innau i'w gwneud hi'n bedair ac yn fuan wedyn roedd hi'n bump

– Emlyn yn cicio cic cornel Gareth Jones i'r rhwyd. Brwydrodd Joseph Simpson a Gethin Wakeham yn galed yn yr amddiffyn a sgoriodd Guto eto cyn y chwiban olaf.

Y sgôr terfynol oedd 6-0 i Brynrefail.

Ymddeoliadau

Trist iawn oedd ffarwelio â Mrs Beryl Jones, Pennaeth yr Adran Saesneg; Mr Richard Hewitt, Pennaeth yr Adran Dechnoleg Gwybodaeth a Mr Jac Jones o'r Adran Ddylunio a Thechnoleg, ond roedd y tri yn ein gadael gyda llu o atgofion melys iawn. Rydym yn dymuno y gorau iddynt ac mae'n siŵr y byddant yn galw heibio i'n gweld o dro i dro.

Ein gadael am swyddi eraill wnaeth Mr David Healy a Madame Sandrine Williams, y naill i Ysgol Friars a'r llall i Ysgol Tryfan, Bangor tra roedd Mrs Catrin Wynne Ifans yn mynd draw i Gaerdydd. Dymunwn y gorau iddynt yn eu swyddi newydd a gobeithio na fyddant yn anghofio eu cyfeillion yn Ysgol Brynrefail.

Llawer o ddiolch iddynt i gyd am eu gwasanaeth brwdfrydig a chydwybodol dros y blynyddoedd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mrs Gwenno Bebb a'r teulu ar enedigaeth Dafydd Eryl.

Wynebau Newydd

Eleni rydym yn croesawu saith aelod newydd ar y staff ym Mrynrefail:

Ms Sarah Maynard yn Bennaeth yr Adran Saesneg, yn ymuno â ni o Ysgol Tryfan, Bangor; Miss Catrin Wyn Pritchard yn dod i'r Adran Gymraeg o Ysgol Tywyn, Meirionnydd; Ms Sam Jones yn dychwelyd i'r Adran Ffrangeg wedi cyfnod o fagu mab a theithio'r byd;

Mr Peredur Williams yn ymuno â'r Adran Ddylunio a Thechnoleg o Ysgol y Cymer, y Rhondda;

Mr Steven Rowlands yn ymuno â'r Adran Wyddoniaeth o Ysgol Llangefni;

Miss Ceri Davies yn dod atom i'r Adran Gymraeg yn ei blwyddyn gyntaf o ddysgu yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Gwenno Bebb;

Mr Ian Jones yn ymuno â'r Adran Addysg Gorfforol am un diwrnod yr wythnos.

Croeso cynnes iawn iddynt i gyd a gobeithio y byddant yn hapus iawn yn ein cymuned glôs.

Eisteddfod yr Ysgol

Cynhelir yr eisteddfod flynyddol ar Hydref 18 ac yn barod mae ymarferion di-ri yn mynd ymlaen.

Croesawn chwi i ymuno gyda ni ar y nos Iau am 6.30 yr hwyr am wledd o gystadlu brwd rhwng y tai.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Mae angen mwy o aelodau ar y Gymdeithas. A oes yna gyn ddisgyblion awydd ymaelodi? Os hoffech ymuno â'r Clwb, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd i'r ysgol. Cofiwch bod croeso i unrhyw un ymuno.

CLWB CANT CYMDEITHAS CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

Enw: _____ Ffôn: _____

Cyfeiriad: _____

Côd Post: _____

Amgaeaf: £12 arian ☐ sic ☐ Hoffwn gael archeb banc ☐

Enw eich plentyn yn yr ysgol os yn berthnasol _____ Bl. _____

Gwthio dros y Ganolfan



Bu'r ddwy fach ddel yma yn cystadlu yn y ras pramiau i godi arian i'r Ganolfan Gymunedol yn Llanrug

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

**Peidiwch a GORI ar STORI –
ANFONWCH HI I'R
ERCO**

antur WAUNFAWR

Bwyty Blas y Waun

CINIO NADOLIG ARBENNIG -

pryd 3-chwrs traddodiadol cartref i grwpiau a chlybiau

£11.50 y pen

(trwydded yfed ty bwyta)

Miri Siôn Corn

nos Wener, 30 Tachwedd am 6.30 y.h.

hwyl a sbri y Nadolig yn Antur Waunfawr

Siôn Corn, adloniant, lluniaeth a llawer mwy

01286 650 721

www.anturwaunfawr.org



YN YR ARDD!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

Llythyrau

Annwyl Olygydd,

Gwarth Radio Cymru

Arolwg Cylch yr Iaith o Seisnigrwydd Gwasanaeth Radio Cymru

Cynhaliodd Cylch yr Iaith arolwg o wasanaeth Radio Cymru flwyddyn yn ôl (Gorffennaf 1-7, 2000), a chyflwynwyd y canlyniadau i sylw Menna Richards, Rheolwraig BBC Cymru.

Flwyddyn yn ddiweddarach, nid yw'r sefyllfa wedi newid rhyw lawer, gyda'r gwasanaeth yn cael ei ddifetha gan chwarae recordiau Saesneg, a rhai cyflwynwyr yn defnyddio bratiaith, cymysgiaith a Saesneg.

Mae'r diffygion hyn yn yr unig wasanaeth radio Cymraeg i'w priodoli i'r ffaith fod goruchwyliaeth BBC Cymru yn gwrthod yn lân â sefydlu polisi ysgrifenedig pendant i ddiogelu'r Gymraeg. Rhaid sicrhau bod holl gyflwynwyr Radio Cymru yn defnyddio Cymraeg llafar safonol, a bod yr holl amser darlledu ar raglenni cerddorol yn cael ei ddefnyddio i roi cyfle i berfformwyr Cymraeg, gan adlewyrchu amrywiaeth cyfoethog y byd cerdd Cymraeg.

Ar hyn o bryd mae BBC Cymru yn caniatáu i rai cyflwynwyr hyrwyddo bratiaith ac ymadroddion Saesneg ar Radio Cymru, ac mae hyn yn tanseilio'r iaith a'r diwylliant.

Mae canlyniadau arolwg diweddaraf Cylch yr Iaith (Gorffennaf 1-7, 2001) yn cadarnhau unwaith yn rhagor fod y canllawiau cynhyrchu yn fethiant trychinebus. Gofynnwn i chi anfon at Menna Richards, Rheolwraig BBC Cymru, Canolfan y BBC, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ i bwysu am bolisi ysgrifenedig i ddiogelu Cymraeg a Chymreigrwydd y gwasanaeth.

Yn gywir,
Ieuan Wyn
(ar ran Cylch yr Iaith)

Annwyl Syr/Madam

Canolfan Bedwyr

A ydych chi wedi hen ddiflasu ar weld eich cyfeiriad yn cael ei gamsillafu, neu ar weld enw Saesneg eich stryd yn unig ar eich llythyrau? Os felly dyma'ch feyll chi i newid pethau.

Yr ydym yma yng Nghanolfan Bedwyr, Prifysgol Cymru Bangor wrthi'n llunio'r gronfa ddata gyntaf o gyfeiriadau dwyieithog yng Nghymru, ar ran cwmni Cyfeiriadau Cymru. Drwy dderbyn rhestrau o enwau strydoedd a lleoedd swyddogol gan yr awdurdodau lleol, a

thrwu gydwethio â'r Ganolfan Enwau Lleoedd ym Mangor, yr ydym wedi llwyddo i gasglu rhestr weddol gyflawn o strydoedd Cymru.

Ond er hynny, sylweddolwn bod llais y bobl leol yn werthfawr tu hwnt i ni, a dyna pam ein bod yn gofyn am eich cymorth - fe hoffem ni fanteisio ar wybodaeth leol er mwyn sicrhau cywirdeb.

Yr ydym felly'n chwilio am unigolion neu dîm o bob ardal yng Nghymru sydd â diddordeb mewn enwau strydoedd a thai, a fydd yn fodlon bwrw golwg dros restr enwau eu hardal i'w gwirio. Hefyd bydd gennym ddiddordeb mewn gweld rhestr o enwau strydoedd dwyieithog yn eich ardal, ac o enwau strydoedd sydd wedi eu camsillafu.

Os oes gennych diddordeb yn y project, yna cysylltwch â Gwenno Roberts ar (01248) 383607(g.f.roberts@bangor.ac.uk)

Diolch am bob cydweithrediad

Yn gywir
Gwenno Fflur Roberts
Swyddog Project

Annwyl Gyfaill

SNAP Cymru

Un o'r nodweddion arbennig sydd gennym fel Cymry yw'n parch at Addysg a'r ymdeimlad cryf fod yr Addysg hwnnw ar gael i bawb, yn ddiwahan.

Sefydlwyd SNAP Cymru fel mudiad unigryw Cymreig i gynnig cefnogaeth i rieni sy'n brwydro i ddygymod ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig eu plant ac sy'n cynnig cyngor i'r rhieni hynny yn eu hymgais i sicrhau yr Addysg gorau posib i'w plant.

Er mwyn hybu a hyrwyddo'r gwaith holl bwysig hwn mae SNAP yn cynnal tîm o wirfoddolwyr sydd yn rhoi cefnogaeth a chynghor i'r rhieni wrth iddynt ymdrin â'r ysgolion, yr Awdurdod Addysg ac asiantaethau eraill. Mae cyfle i ymuno â'r tîm arbennig hwn a thrwy gyfrwng eich Papur Bro ardderchog, estynnir gwahoddiad i'r darllenwyr hynny sydd ag awydd i wirfoddoli ychydig oriau o'u hamser o bryd i'w gilydd. Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â mi yng Nghaernarfon (011286) 677899.

Bydd hyfforddiant ar gael.

Gareth Hughes
Rheolwr Cangen y Gogledd

Briwsion Byd Natur Dafydd Guto

Dod o hyd o'r diwedd i Llysieuyn Pen To



Planhigyn yw *llysieuyn pen to* sy'n tyfu ran amlaf ar ben cloddiau gerddi, neu ar doâu tai, neu adeiladau allanol, a buwyd dros ugain mlynedd yn cribinio a chwilota amdano. Yn wir, aethpwyd i ardaloedd prydferth gwledig Connamara, yn yr Iwerddon Rydd ac Ynys Manaw yn 80au'r ganrif a fu, heb ganfod y planhigyn yn yr un lle! Ond ym mis Gorffennaf eleni tra mewn gardd llysiau meddyg-iniaethol yn ne-ddwyrain Lloegr, fe gyfarfyddais â gwreigan 70 mlwydd oed o'r Alban. 'Rydw i'n edmygu'r Cymry,' ebe hi wrthyf. 'Pam?' ebe finnau. 'Am iddynt roi cymorth i ni'r Albanwyr.'

Gan ein bod mewn gardd llysiau rhinweddol gofynnais iddi a wyddai am fodolaeth *llysieuyn pen to*. 'Tyrd ffor' 'ma, ngwas bach i!' ebe hithau, ac am y tro cyntaf yn fy mywyd - o'r diwedd - roeddwn wedi taro ar llysieuyn y buwyd dros ugain mlynedd yn ceisio dod o hyd iddo.

Dyma rai ffeithiau am y planhigyn:

Gall dyfu mewn mannau heb lawer o bridd yn perthyn iddynt, e.e. toâu adeiladau.

Yn Nyffryn Clwyd defnyddid ar un amser rannau o'r planhigyn i olchi'r llygaid.

Defnyddid yng Ngheredigion ar ffurf eli i wella llygaid gweinion. Yng Nghastell Newydd Emlyn cymcriid dau ddiferyn o sudd y planhigyn (y ddeilen yn arbennig) a'u tywallt i glust pan y byddai creadur yn cael y pigyn

clust gwaethaf posib, a byddai hynny'n ei wella.

Yng Nghymru bodolai coel bod *llysieuyn pen to* (neu'r enwau eraill arno yw *llysieuyn pen wal*, *garlleg pen to*, *cennin pen to*, *gwlydd pen to*, *llys y glust*, *dail y llygaid*, *erllys*) yn gwarchod yr aelwyd rhag mellu.

Ys gwn i a oes coelion eraill am y planhigyn dan sylw ym mroydd Eco'r Wyddfa? Beth am daro gair atom?

DRAENOG

Jest Cyn Brecwast

Mae'r hogia trin lôn 'ma allan yn gynnar. Roedd angen i un o'r contractwyr lleol fod yng nghyffiniau Bryncir yn ystod yr haf - a hynny'n gynnar y bore. Pawb yn disgwyl yn amyneddgar amdano, nes penderfynu o'r diwedd, fod yn rhaid chwilio amdano. Ei gael yn eistedd yn ei JCB ym Mhant Glas, yn methu'n lân a deall pam fod pawb arall yn hwyr!

Ond chwara' teg, mae unrhyw le tu draw i Lanllyfni yn ddieithr hollol. Y syndod yw iddo ddarganfod ei ffordd i Gricieth i gael gwraig!

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL

CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCN UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

DIOLCH. Dymuna Grace, Sylvia, Gareth a theulu y diweddar Mr Hughie William Tate (Hugh), 3 Tai Caledffrwd, Clwt-y-bont, Deiniolen ddolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd o golli un mor annwyl.

DIOLCH. Dymuna Ifan Wyn Williams, 12 Ffordd Deiniol a'r teulu ddolch yn ddiffuant am bob cydymdeimlad a chymorth a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth o golli brawd a ffrind annwyl.

Y CLWB IEUENCTID. Y Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn awyddus iawn i glybiau eraill ddilyn esiampl Clwb Deiniolen a gwobrwyo eu haelodau gyda Thystysgrifau Cofnod Cyrhaeddiad am waith neilltuol yn y clybiau.

Cododd Iona, Gari, Donna a Mathew £210.00 tuag at Barti Nadolig Ysgol Pendalar gyda chweched dosbarth Ysgol Brynrefail. Codwyd yr arian trwy daith gerdded nodedig. Arweinyddion Clwb Deiniolen yw Jackie Roberts ac Iolo Evans.

MERCHED Y WAWR. Cafwyd agoriad ardderchog i weithgareddau'r tymor nos Lun, Medi 17. Estynnwyd croeso cynnes i'r aelodau gan y Llywydd, Marian Williams, yn arbennig y rhai ohonynt a fu'n cwyno, ac mewn ysbytai. Croesawyd y gŵr gwadd, Bryngwyn Griffith, yn

gynnes a bu'n sôn wrthym am ei gasgliad o lestri llachar Cymru, sef y Gaudy). Daeth ag amryw o enghreifftiau o'r gwahanol batrymau a diddorol iawn oedd ei glywed yn egluro sut y cawsant eu henwau. Roedd jwg Deiniolen yn arbennig o hardd! Diochwyd i'r siaradwr gan Alice Griffith ac ategwyd gan yr holl aelodau.

Nos Wener, Hydref 12 byddwn yn ymweld ag Antur Waunfawr ac yn cael swper diolchgarwch yno. Croeso cynnes i bawb. Y GYMDEITHAS LENYDDOL.

Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor yn un o ystafelloedd dosbarth Ysgol Gwaun Gynfi, nos Lun, Hydref 22 am 7 o'r gloch. Ein gŵr gwadd fydd Mr Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug a bydd yn ein diddori wrth sôn am ryw agwedd o hanes lleol.

Erfyniwn yn daer am eich cefnogaeth i'r Gymdeithas eleni eto. £2.50 fydd pris tocyn aelodaeth.

BRO CRAWIA

Ni fynnaf fod yn unman Brydferthach fro i fyw, Gerllaw rhed afon Seiont A'i murmur ar fy nghlyw; Mae si ei throchiog genlli Yn fiwsig ar bob awr, I'm suo'i gysgu gyda'r hwyr I'm deffro gyda'r wawr.

Hoff gennyf rodio'i glannau Dan wenau heulwen haf, I wyllo campau'r brithyll Ac ambell eog braf, Torheulo ar y dorlan, Mwynhau'r olygfa iach A gwrando cwyn yr awel A chân aderyn bach.

O chwilio, fe geir harddwch Mewn hagrach ambell dro, Yn y tomenydd rwbwl Gerllaw, sy'n rhan o'r fro; Cofadail i'n cyn-dadau Fu'n ddiwyd chwarae rhan, Nid ydynt mwy ond enw Ar feddfaen yn y Llan

Adfeilion 'rhen felinau Sydd heddiw'n fud ddistwr, Tra llithrai'r afon heibio Heb droi yr olwyn ddwr; A mwyach nid yw'n gyrchfan I hogia'r waen a'r rhos Ond lloches i'r dylluan wen Dramwya gyda'r nos.

Ni erys ond ysgerbwdd Di-lun o'r felin flawd, Mewn llawer cwm yng Nghymru Yr un yw'r stori dlawd; Dychmygaf weld y llwythi O wenith, haidd a cheirch Yn araf lusgo tua'r fâl Urddasol, oes y meirch,

Daw anbell i hen frodor Draw at y bont am dro, A thywallt ei atgofion O gist trysorau'r co; Ail-fyw ei fwyn flynyddau Ac adrodd am y bri Fu ar yr hen felinau Ymhen cyn 'ngeni i.

Ond cynnydd a gwareiddiad Roes aml dro ar fyd, Er gwell, er gwaeth, nis gwn pa un Yr olwyn dry o hyd; Cydsymud â'r amseroedd Raid i'n er llawer siom, Cyd-oesi ac ansicrwydd Ac ofn yr 'Atom Bomb'.

Dan lewyrch lleuad Medi Sy'n dyst o'r stori front, Âf finnau i fwynhau fin hwyr Rhyw funud ar y bont; I felys-ddwys fyfyrion Dan hud y pelydr gwyn Er gwaethaf holl derfysogedd byd Mor dawel yw fan hyn.

RHR

CYNGERDD

Capel Tabernacl, Cwm-y-glo
Nos Fawrth, 16 Hydref am 7.30 o'r gloch

Maureen Rhys

Côr Merched Lleisiau Lliwedd

Arweinydd: Gareth Jones Offerynwraig: Cassie Thomas

Arweinydd y Noson John Ogwen

Tocyn: £2.50

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd Rolls Royce ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd – 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes
a physgod.
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

G. EVANS



ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

CHIROPDIST
Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
(01286) 675754

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLLEN
(01286) 870484

➤ Bysiau o 12 i 53 sedd

➤ Teithiau Lleol a Thramor

➤ Gwaith Contract

➤ Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

A HEFYD
GOFIWOCH AM EIN

BeliBistro

Ffoniwch am fanylion

Gofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO
nos Wener olaf pob mis

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Bethan Hughes

LLWYDDIANT. Mae Bethan Hughes o Ddolafon, Cwm-y-glo wedi llwyddo i ddod yn aelod o'r Fyddin yn dilyn rhan gyntaf ei chwrs hyfforddi, ac yn edrych ymlaen am ddilyn ail ran ei hyfforddiant. Bydd yn treulio'r chwe mis nesaf yn Aldershot yn dysgu sgiliau para-feddygol, ac os bydd yn llwyddiannus, yna daw'n Dechnegydd Meddygol yn un o dimau'r Fyddin. Mae Bethan wedi bod â'i bryd ar ddilyn gyrfa yn ymwneud â nyrsio neu waith meddygol erioed, ac y mae'r cyfle hwn gyda'r Fyddin yn rhoi'r siawns iddi hefyd gael gweld y byd.

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Eco weld golau dydd bydd Bethan eisoes wedi gadael am Aldershot. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw o hyfforddiant ei gobaith wedyn fydd cael symud dramor gydag un o unedau meddygol y fyddin.

CAPEL Y TABERNACL. Yn ystod orig mis Awst bu Mr Dafydd Price a Dr Graham Thomas yn tynnu dwy sedd flaen pob ochr i'r capel fel bod lle i roi byrddau ar gyfer Clwb y Plant a bu Glyn Price yn ail baentio'r groes a'r wal uwchben y pulpud, hefyd bu Mr Glyn Evans yn torri'r coed a'r mieri a chodi waliau wrth ochr a thu ôl i'r capel.

CLWB Y PLANT. Mae'r Clwb wedi aildechrau ar ôl gwyliu'r haf a chymerodd rhai o'r plant ran yn yr oedfa hwyr nos Sul, Medi 16. Dydd Sul, Medi 30 am 10 o'r gloch yng Nghapel Ebeneser Deiniolen mae'r plant yn ymuno â phlant Ysgolion Sul Deiniolen a Phenisarwaun mewn taith gerdded nodedig i godi arian i'r

ferch fach, Katalau, trwy Gymdeithas Action Aid. Dyma drefn yr oedfaon am fis Hydref:

- 7 Clwb y Plant am 2 o'r gloch a'r Parch Gwynfor Williams am 4.
- 14 Clwb y Plant am 2 a Mr J.O. Roberts am 5.30.
- 21 Clwb y Plant am 2 a Mr Merfyn Jones am 4.
- 28 Clwb y Plant am 2 a Mr Derek Jones am 4.

CYNGERDD. Cynhelir cyngerdd yng Nghapel y Tabernacl nos Fawrth, Hydref 16 am 7.30 o'r gloch gyda'r elw yn mynd i Eglwys Sant Gabriel.

DIOLCH. Dymuna Gwyneth, Bod Gwynedd, ddiolch i bawb am y llu cardiau, galwadau ffôn, blodau ac anrhegion a dderbyniwyd ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch arbennig iawn i Sioned, Melfyn a Shyrli am y noson annisgwyl.

LLONGYFARCHIADAU i Meira Williams, Goleufryn, ar achlysur ei phen-blwydd yn 50 oed. Hefyd i Mrs Margaret (Peggy) Rowlands, Talaion ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

G E N E D I G A E T H . Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Einir a Geraint, Gwêl Elidir ar enedigaeth mab bychan, Huw Gwynn, brawd bach i Ifan Gwynn.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Tony Thomas a'r teulu, Gwylfa, yn ei brofedigaeth o golli ei dad, Mr Neville Thomas, yn Llanrug.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o dymor y gaeaf yn Hafan Elan, Llanrug nos Lun, 3 Medi. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parch Philip Hughes. Ar ôl y gwasanaeth trafodwyd rhai materion gan Mrs Joyce Rawsom yn absenoldeb Mrs M. Latham. Croesawyd Mrs L. Jones, Lyndale yn ôl. Oherwydd gwaeledd colodd Mrs Jones rai o'r cyfarfodydd. Trefnwyd y lluniaeth gan Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Hilda Orritt a diolchwyd iddynt gan Mrs Rawsom. Rhoddwyd y raffl gan Mrs G. Roberts ac fe'i henillwyd gan Mrs Sandra Hughes. Doedd dim arall a therfynwyd trwy adrodd Y Gras.



Ar ddechrau blwyddyn newydd yn yr ysol fel hyn rydym yn croesawu naw o blant bach newydd i'r Dosbarth Meithrin a thri arall i'r Dosbarth Derbyn. Maent wedi setlo i lawr yn dda iawn erbyn hyn ac wedi gwneud ffrindiau bach newydd.

Mae'n braf cael croesawu Miss Kim Cullen, un o'n cyn-ddisgyblion atom i gynorthwyo yn nosbarth y Babanod. Yng Ngholeg Menai mae Kim yn dilyn cwrs Cymorthyddion Dosbarth.

Anfonwn ein cofion at ein gofawraig, Mrs Rhian Jones Bryn Eryri, gan obeithio ei bod yn gwella yn araf ac y bydd yn ôl gyda ni cyn bo hir.


Ar ddiwedd tymor yr haf cafodd plant ysgolion cynradd y dalgylch gyfle i fynd i Ysgol Brynrefail i fwynhau cyngerdd go arbennig. Daeth y grŵp prês Chaconne o dde Lloegr yno a chawsom wledd o gerddoriaeth clasurol o bob math. Cynhaliwyd cystadleuaeth gwneud offeryn o unrhyw ddefnydd. Karon Williams a Jason Jones o Gwm-y-glo oedd yn fuddugol a chafodd y ddau dâp o gerddoriaeth y grŵp yn wobwr.

Byddwn yn cynnal ein

Gwasanaeth Diolchgarwch eleni eto yng Nghapel y Tabernacl. Bydd y gwasanaeth yn dechrau am 1.30p.m. bawn dydd lau, Hydref 18. Croeso i drigolion y pentref ynuno gyda'r plant a'u rhieni os dymunant. Gwneir casgliad i'w gyflwyno i achos dyngarol.

Rydym yn croesawu aelodau hen a newydd i ymuno â Chlwb cefnogi'r ysgol. Mae un rhif yn costio £1 y mis a thynnir tri rhif lwcus ar gyfer y gwobrau. Gallwch gysylltu â'r ysgol am fwy o wybodaeth.

Bydd Cymdeithas Rhieni/Athrawon yr ysgol yn trefnu Noson o Dwmpath Dawns Werin yn ystod mis Tachwedd yng nghwmni'r grŵp gwerin Aderyn Prin. Gobeithir cynnal y noson yn y British Legion yn Llanberis. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf o'r Eco.



Karon a Jason ar lwyfan Ysgol Brynrefail efo aelodau Chaconne

Alwyn a Sarah Jones

BLŌDAU

RACCA
PENISARWAUN

Blodau ar gyfer pob achlysur

Dewis da o Lysiau Fferm

Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod

870605



Danfôn 7 diwrnod
yr wythnos
drwy'r fro

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

PRIODAS. Bu dwy briodas yn y pentref yn ystod misoedd yr haf – Renee Mullane (Cae Gwyn) a Rob Pritchard; a Karenann Price (Swyddfa'r Post) a Daniel Hood. Llongyfarchiadau mawr iddynt a phob lwc i'r dyfodol.

DIOLCH. Dymuna Daniel a Karenann Hood ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion priodas a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas yn Eglwys Sant Peris ar Orffennaf 14 eleni. Diolch yn arbennig i'r Parch Philip Hughes a'r ciwrat, Vittoria Hancock am wasanaeth ystyrlon a chofiadwy, a diolch hefyd i'r organydd, Mr Cyril Williams.

HOFFA Renee a Rob Pritchard fynegi eu gwerthfawrogiad i'w holl deulu a'u ffrindiau am y ddymuniadau da a'r anrhegion a gawsant ar achlysur eu priodas. Cawsant ddiwrnod perffaith a hoffent ddiolch i Mrs Ann Cumberton, Ty'n Llan am wledd ardderchog, i Mrs Shirley Davies am drefnu'r addurniadau a'r blodau hardd ac i Mrs Renee Davies (Nain Hafod) am y deisen. Diolch yn fawr i bawb.

BABIS!! Bu nifer o achosion dathlu yn ddiweddar gyda chyrhaeddiad pedwar baban newydd i drigolion y pentref. Llongyfarchiadau i:

John a Caron, Ty Isa ar enedigaeth mab – Robin Wyn, brawd bach i Gwenno a Gethin. Hefyd Gwyneth ac Elgan, Bron Eryri ar enedigaeth Penri Llŷn, eu mab cyntaf.

Yn ogystal Helen (Ty Isa) a Bedwyr (Gwastadan) ar gael mab – Eban Peris, brawd bach i Aaron Gwynant;

A'r ffarmwr diweddera i gael ei eni i'r ardal yw Kes, mab i Maggie (Beudy Mawr) a Phil, brawd bach i Ellie. Llongyfarchiadau mawr ichwi oll a chroeso i'r plantos.

ARHOLIADAU. Llongyfarchiadau i John Paul, 1 Bro Glyder ar ennill graddau arbennig yn ei arholiadau TGAU. Pob lwc hefo'r Lefel A.



Renee a Rob Pritchard ar ddiwrnod eu priodas

YSGOL. Dymuniadau gorau i Gwenno Pritchard, Ty Isa ar ddechrau ei gyrfa yn Ysgol Brynrefail ac i Gareth Pritchard, Tyddyn Alice sydd newydd ddechrau mynychu Ysgol Dolbadarn yn llawn amser.

LLONGYFARCHIADAU i Sara Davies, Tan Bryn ar basio ei arholiadau cyfrifo pellach ac ar gael swydd newydd gyda chwmni Hardy & Co, Llandudno. Pob lwc i'r dyfodol.

HELFYD DRYSOR. Cynhaliwyd helfa drysor ddifrif i'w gwmpas yr ardal yn ddiweddar a llwyddwyd i godi swm o £101 tuag at Uned Arennol Bangor ac Ymchwil Arennol. Diolch i Ann Cumberton am drefnu'r gwobrau ac am y croeso'n ôl yn Nhy'n Llan wedyn. **GWELLHAD BUAN** i Gwenda Roberts, Glanrafon gan obeithio na fydd yn gorfod aros mewn plastr yn rhy hir!

Tydi Bywyd yn Ddyrys – weithia

Dim ond gair fy mod i yma,
Nad wy'n fud tu draw i'r llen,
Er fy mod i'n fwy anghofus
Ac yn gynydd iawn fy mhon.

Rwy'n dygymod a'm gwyncgon,
A'm daint gosod bodlon wyf,
Gallaf drafod trwy fy sbectol,
Ond, O! Dduw, mae'n chwth fy mhwyll.

Aml iawn ni allaf gofio
Pan y safaf wrth y stacer,
Ai am asgryn grisiau oeddwn
Ai i lawr y dois am ac?

Ac o flacn y ffrij mor aml,
Llaw ambeuon yw fy mryd,
Ai i gadw bwyd y deuthum
Ai i'w cstyng at fy mhryd?

Safaf dro pan fo hi'n nosi
A'm cap nos ar war fy nghefn
Wn i ddim ai mynd i'r ciando
Ai dod o'no yw y drefn.

Oe mai 'nhro i ydi 'sgwennu
Synio rwyf na fyddi flin,
Fallai mod i wedi sgwennu
Dwyf fi ddim yn siŵr fy hun.

Cofia mod i yn dy garu
A'n dymuno'th weld yn nes,
Ond yn awr rhaid i'm ei bostio
A dweud 'gwbe' i'ti'n bles.

Sefyll wyf o flaen y bocsyn
A'm holl wedd yn gwrido'n goch
Yn lle'i bosio yna i ti
Fe'i agorais, Well am draed moch.

(addaswyd o'r Saesneg gan R.W., Llanrug)

Carnifal Nant Peris

CARNIFAL. Cynhaliwyd ein carnifal blynyddol ar nos Wener, Gorffennaf 27 ym maes parcio'r pentref. Cafwyd noson llawn hwyl ymhlith y stondinau a'r cystadlaethau lu a braf oedd gweld yr haul yn tywynnu am unwaith!

Hoffai aelodau'r pwyllgor ddiolch o galon i'r gwirfoddolwyr a helpodd i drefnu'r noson ac i'r holl unigolion a busnesau lleol a gyfrannodd yn hael tuag at ein raffl a'n stondinau. Diolch yn arbennig i'r Parc Cenedlaethol am ganiatâd i ddefnyddio'r tir, i Mr Gwynedd Roberts am fod yn 'm.c.' unwaith eto, i Frenhines Carnifal Llanberis a'i gosgordd, Jenie, brenhines Nant Peris, ac wrth gwrs, i'r tri beirniad – Mr a Mrs John Eifion Jones a Mrs Marie Baylis am eu gwaith caled yn ystod y noson.

Dyma ganlyniadau y cystadlaethau gwisg ffansi:

0-3 Nant Peris yn unig: 1. Megan a Jordan. **Agored:** 1. Ellie, 2. Catrin Williams, 3. Aaron Jones.

4-5 Nant: 1. Elin, 2. Gareth, 3. Kate a Stephen; **Agored:** 1. Kurt, 2. David, 3. Alisha a Steven.

6-8 Nant: 1. Miriam, 2. Jessica ac Ariann, 3. B.J.

8-11 Nant: 1. Manon; **Agored:** 1. Manon, 2. Reslar, 3. Cydradd drydydd

11 + 1: Lilly

Oedolion: 1. Criw Rala Rwdins. **Babi Bochgoch:** 1. Stephen. **Gliniau Codog:** Pawb yn deilwng o fferins!

Het Orau: 1. Bev, 2. Val, 3. Y Cil! Canlyniadau'r Rasus

Dan 5: 1. Daniel, 2. Ffion, 3. Aysha. **Dan 8:** 1. Iwan, 2. Mathew, 3. Gethin. **Dan 11:** 1. Ian, 2. Llion, 3. Gwenno.

Ras Deircoes: 1. Carwyn ac Alaw a Sioned a Caryl, 2. Manon a Gwenno, 3. Janie a Katie.

Raffl. 1. £75 Mrs Thomas, Bron Wyddfa; 2. £50 DMM: Val, 3. Cinio i ddau yn y Victoria Hotel: Bethan Morgan; 4. Cinio i 2 yn Tŷ Cloc: Eleri; 5. DMM: Eric; 6. Blodau o Racca: Shirley; 7. 5 Voucher Chinese: Ffion; 8. Petrol: Bev; 9. Chwisgi: Mick; 10. 5 Cig: 872163; 11. Yr Anthem mewn ffrâm: Meriel, Bron Eryri; 12. Glo: Jen; 13. Meat platter o Wavel: Gwyneth.

Noson Gwis. Cynhaliwyd y noson gwis yn Nhy'n Llan ar Orffennaf 24. Braf oedd gweld y lle'n llawn a phawb yn crafu pen wrth geisio ateb y cwestiynau. Diolch yn fawr i Mr Meirion Griffiths am drefnu'r cwis a llongyfarchiadau i'r tîm buddugol a fu'n garedig iawn a chyfrannu'r wobr o £20 i goffrau'r carnifal.

Noson Pŵl. Enillydd Tarian Goffa Selwyn Davies oedd David Ellis yn dilyn gêm gyffrous iawn yn erbyn Aled Davies. Diolch i John Ellis am drefnu'r noson.

Hoffem ddiolch i Anne a Jim, Ty'n Llan am eu cyfraniad a'u cefnogaeth ac am roi caniatâd inni ddefnyddio eu tafarn i gynnal y ddwy noson.



Manon



B.J. Arian, Jessica a Miriam



Gareth, Elin a Côt

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL LLANRUG

CROESO. Estynnwn groeso i ddeg ar hugain o blant bach i'r Dosbarth Meithrin. Ychydig iawn o grio a fu a phob un wedi setlo i gynefin a threfn y dosbarth erbyn hyn.

Braf oedd gweld disgyblion Bl 7 Ysgol Brynrefail yn troi i mewn i'w hen ysgol ar brynhaun Mawrth cyntaf yr ysgol. Pob un â gwên ar ei wyneb wedi mwynhau eu diwrnod cyntaf yn eu hysgol newydd.

FFARWELIO. Daeth Mr John Wyn Jones, Cadeirydd y Llywodraethwyr i'r ysgol fore Gwener, Medi 14 gan ymuno mewn gwasanaeth arbennig i ffarwelio â'n cogyddes, Anti Mai. Diolchodd Mr Williams, y Prifathro, iddi am ei gwaith diflino a chyflwynwyd siec, tusw mawr o flodau ac englyn o waith Mr Ieuan Wyn iddi fel arwydd o werthfawrogiad y staff a'r plant am ei gwasanaeth i gegin yr ysgol am gyfnod o wyth mlynedd ar hugain. Dymunwn bob hapusrwydd ichi yn eich ymddeoliad, Anti Mai.

I Anti Mai

(gan blant yr ysgol)

Buoch fam yn ddiamau, - yn fodryb
Fedrus gyda'r prydau,
A down, fabanod a iau,
I nodi'n diolchiadau.

GWIBDAITH. Cofiwch am y wibdaith i Trafford Centre - y ganolfan siopa fawr ym Manceinion - dydd Sadwrn, Tachwedd 3. Cewch fwy o fanylion yn swyddfa'r ysgol.

Hefyd mae Ffrindiau'r Ysgol am gynnal Ffair Nadolig yn yr ysgol ar Ragfyr 4. Bydd mwy o fanylion yn nes ymlaen.

CYMDDEITHAS ATAL CREULONDEB I BLANT. Bu Mrs Parry a chymeriad Sbeic yn sgwrsio â disgyblion yr ysgol am eu gwaith gyda Chymdeithas Atal Creulondeb i Blant. Wedi iddynt weld llun wyneb trist geneth fach o'r enw Eli mae pob un yn yr ysgol am liwio'r siapiau ar y siart a gawsant ac am dro eu gorau i gasglu ychydig o arian at yr achos teilwng yma. Dyma fydd ein gweithgaredd a'n casgliad Diolchgarwch y flwyddyn yma.

Am unarddeg o'r gloch fore gwener daeth llonyddwch a

thawelwch dros yr ysgol wrth i bob disgybl o'r Feithrin i Blwyddyn 6 adael ei waith a phlygu pen mewn parch i'r rhai a gollodd eu bywyd yn y drychineb erchyll yn Efrog Newydd.

DYMUNO GWELLHAD. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan i Mr Wyn Griffith wedi iddo dderbyn triniaeth i'w benglin yn Ysbyty Gobowen.

GWEITHGAREDDAU I DDOD. Nos Lun, Hydref 1 bydd Adran yr Urdd yn cychwyn tymor newydd gydag awr o sgwrs a dangos sleidiau o'r gweithgareddau a fu y llynedd. Bydd croeso i ddisgyblion Bl.3,4,5 a 6 ymuno â'r Urdd. Y gost eleni yw £4.50

Nos Fercher, Hydref 31 bydd Disgo Calan Gaeaf. Bydd croeso i ddisgyblion y Babanod ddod i ddawnsio rhwng 5.30 a 6.30 o'r gloch, a'r Adran Iau rhwng 6.30 a 7.30 o'r gloch.

Nos Lun, Tachwedd 5 bydd Pwyllgor Ffrindiau'r Ysgol yn cynnal noson Ddan Gwyllt. Bydd cŵn poeth ar werth. Croeso cynnes i bawb ymuno yn yr hwyl. **LLONGYFARCHIADAU** i Gwyn 'Gwenlyn' Stad Tal y Bont ar ennill gradd BA (Anrhydedd) mewn Dylunio (Arlunio) yng Ngholeg Menai. Pob lwc i ti yn y dyfodol, Gwyn.

DIOLCH. Hoffai Gwyn ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur o gael ei radd yn ddiweddar.


DYMUNA Idwal, Bethanne, Owain a Morgan, Disgwylfa, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a chymorth a ddangoswyd iddynt ar eu profedigaeth o golli Mam a Nain.

DIOLCHIADAU. Dymuna Clifford ac Eleanor Williams, Afallon, ddiolch yn fawr iawn i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am y cyfarchion a'r anrhegion a gawsant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.

LLONGYFARCHIADAU i Ruth Ann Evans, 18 Glanmoelyn ar dathlu ei phen-blwydd yn 21 ar Fedi 19.

Mae Ruth yn dymuno diolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mai



Siop Londis a agorodd yn ddiweddar yn hen adeilad y Co-op.

Davies ddiolch am y cardiau, anrhegion, blodau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad. Diolch arbennig i Mr Robin Williams, athrawon, staff a phlant Ysgol Gynradd Llanrug am eu haelioni, gwerthfawrogiad yn fawr iawn. Diolch hefyd i Carys ac Eirlys am drefnu'r noson allan.

DIOLCHIADAU. Dymuna Neil a Llinos ddiolch o galon am y

caredigrwydd a dderbyniwyd ar enedigaeth Deio.

GWAELEDD. Da yw deall fod Mrs M. Cadwaladr, Gwêl Fynydd, wedi dod adref o Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella..

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Idwal Williams, Disgwylfa, Ffordd yr Orsaf yn ei brofedigaeth o golli ei fam yn ddiweddar.

Eisteddfod Bentref LLANRUG a CHWM-Y-GLO Noson Celf a Chrefft

Nos Lun, Hydref 8
6.00 - 6.30

Noson Ysgrifennu
yn Festri Capel y Rhos
Nos Fercher, Hydref 3
5.00 - 7.30

Eisteddfod Bentref LLANRUG a CHWM-Y-GLO

Dydd Sadwrn, Hydref 13
am 1.00 o'r gloch

Drysau ar agor am 12.30
Mynediad: £1.50 i oedolion
50c i blant

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug



Gwynedd Hotel & Restaurant


Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.

Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.

Bwrdd Pŵl ar gael

Bwydlen Bar a Restaurant
Trwydded lawn tŷ tafarn.



Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA


CLADIO

CONSERFATERIS

Agor yr Ganolfan Gymunedol yn Llanrug



Rhai o'r ymgeiswyr yn y ras bramiau i godi prês i'r ganolfan newydd.



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901



ORIEL CWM Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Fframia

Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gacaf)

Gweithgareddau'r haf yn Ninorwig

Ar ôl oriau o waith caled gan wirfoddolwyr o Gymdeithas Trigolion Dinorwig, gwobrwywyd ein ymdrechion gyda llwyddiant y rhaglen o weithgareddau'r haf i blant a ariannwyd gan Cist Gwynedd.

Dechreuodd y Cynllun yn dda gyda Syrcas Circus - daeth 22 o blant a phobl ifanc i sesiwn y bore a 34 i'r prynhawn. Eisteddodd y plant wedi'u syfrdanu wrth i James arddangos ei sgiliau syrcas i ni. Yna, cafodd pawb eu tro. Roedd yn braf gwylio oedolion a phlant o bob oed yn mwynhau eu hunain gyda'i gilydd. Rhwng goruchwyllo'r gweithgareddau, roedd Sue Michael yn arbennig o dda yn troellu platiau, a llwyddodd Malcolm Griffiths i feistrol'r beic un olwyn.

Roedd y drymio Affricanaidd yn weithgaredd arall i'r holl deulu ymuno â'r hwyl. 'Doedd Miriam (3 oed) ddim am adael i mi gael tro ar ei drwm,' meddai ei mam, Karen Jones. 'Roedd yn rhaid i mi chwilio am un fy un.' Mae gan Gabrielle a Steve o 'African Link' lawer o brofiad o ddysgu mewn ysgolion yn ogystal â chynnal gweithdai sgiliau drymio. (Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn dechrau grŵp yn y pentref, gadewch i mi wybod). 'Maent yn gerddorion arbennig o dda ac fe roedd yn brofiad gwefreiddiol i wrando ar cymaint a ddysgodd y grŵp mewn prynhawn,' meddai Sue. Diolch hefyd i Maggie a John Cobb o'r grŵp sgiliau drymio am eu cymorth gwirfoddol yn ystod y diwrnod.

Ar ôl dod i'r sesiwn gyntaf gyda'i nai a'i nith, daeth Delwen Williams yr holl ffordd o Sir Fôn i gynnal sesiwn arlunio i blant dan 5 oed. Er mai pentref bach yw Dinorwig roeddem yn falch o weld 24 o blant a 16 o oedolion yn bresennol. Roedd yn gyfle da i wireddu ein nôd o ddod â phobl at ei gilydd. Rydym yn gymuned gymharol wasgaredig ac mae plant y pentref yn mynychu amryw o ysgolion, ac mae'n hawdd i ni ddiethrio o'n gilydd. Diolch arbennig i Delwen.

Cyfranodd y rheini yn sylweddol i'r gweithdai celf o dan arweiniad Mark Buxton a Sarah o Grŵp Celf Mynydd Llandegai. Cafodd y genod hwyl yn pacntio'u hwynbau ac nid ydw i'n credu y byddaf byth yn anghofio gwyneb enfys hardd Cicely, na chynnwrf yr hogiau wrth ddangos y crysau. T roeddynt wedi'u pacntio. Roedd yn bleser mawr i wylu plant o bob oedran yn gweithio gyda'i gilydd ar gynlluniau scl 'llosgfynydd' a'r 'planedau'. Mae peth o waith y plant yn awr yn


addurno'r Ganolfan i bawb eu gweld.

Roedd sesiynau eraill yn cynnwys dawnsio gyda Serena Wagg o Dawns i Bawb, paentio gwydr gyda Megan Owen, storïau a drama. Roedd yn bleser gwrandao ar storïau Eysyllt Harker yn Gymraeg a gwylio'r plant a phobl ifanc yn addasu chwedl Gymraeg i ddrama yn y sesiwn gyda Martin Gill o Dryw. Cafodd pawb hwyl gyda'r boc dillad gwisgo i fyny.

Cynhaliwyd y gweithgareddau yma i gyd yn y Ganolfan - diolch i Bwyllgor y Ganolfan. Rydym yn ffodus iawn i gael adeilad cymunedol gyda chymaint o botensial yn y pentref. Ein gweithgaredd olaf oedd trip i Ganolfan Greenwood a oedd eto'n llwyddiant mawr. Roeddem wedi disgwyl 20 ond ar y diwrnod roeddem yn falch o weld 26 o blatn ac 8 o oedolion yn bresennol. Llogwyd bws Gwerin y Coed gan felly gefnogi grŵp ieuenctid lleol arall hefyd. Doedd y tywydd ddim yn edrych yn rhy dda yn y bore, ond erbyn cyrraedd cylchfan Pentir roedd y glaw wedi peidio, ac yn y prynhawn cawsom haul braf. Cytunodd pawb fod y llithren werdd yn wefreiddiol a llwyddodd rhai i fwrw'r targed gyda bwa a saeth.

Mae trefnu rhaglen fel hyn angen llawer o amser ac ymdrech, ond rydym i gyd yn teimlo ei fod wedi bod yn werth chweil. Cefais i gymaint o fwynhad â'r plant, ond roeddw'n wedi blino'n lân ar ôl pob diwrnod.

Fel y gwyddai unrhyw un sydd wedi ymwneud â gweithgareddau cymunedol, mae yna lawer o waith yn cael ei wneud tu ôl i'r llenni i gyflawni cynllun fel hyn, e.e trafodaethau mewn cyfarfodydd pwyllgor, cadw cofnodion ariannol, tynnu lluniau, nifer o alwadau ffôn, ond maent yn angenrheidiol er mwyn sicrhau llwyddiant y cynllun. Y mae felly yn anodd i enwi pawb sydd wedi cyfrannu, er hynny, hoffwn ddiolch i Karen Jones a'r mamau eraill a ddaeth i'r cyfarfodydd rhieni, ac â roddodd y syniad i ni yn y lle cyntaf. Diolch arbennig i John Ryde am yr oriau maith a dreuliodd yn paratoi'r cais grant a sydd wedi gweithio yn ddiflino yn paratoi taslenni ac yn eu dosbarthu yn yr amlenni a ddarparodd. Diolch i Gill Eflang am y gwaith cyficithu dros y flwyddyn ddiwethaf, ac hefyd i Philip Jones am wneud y gwaith pan oedd Gill ar wyliau. Diolch arbennig i Sue Michaels a fu'n goruchwyllo pob un o'r sesiynau yn y Ganolfan, gan ofalu fod popeth yn barod cyn i'r plant gyrraedd a fod y lle yn



Hwyl y gweithgareddau'r yn Ninorwig

daclus ac yn lân cyn iddi adael. Diolch i'r oedolion hynny oedd â chymhwysterau cymorth cyntaf a fu'n bresennol, a'r rhai dwyieithog am sicrhau fod yn plant i gyd yn gallu mwynhau yn eu icithoedd cyntaf.

Yn olaf, diolch yn fawr iawn i'r plant a'r rhieni a ddaeth i'r gweithgareddau ac a sicrhodd fod y fenter yn llwyddiant. Roedd yn teimlo fel gwir ymdrech gymunedol.

Theresa Whittall

Pen-yr-allt
Fachwen
Caernarfon

Annwyl Sue a Terry
Enw fi yw Caroline. Rwy'n ysgrifennu atoch i ddeutha chi am yr hwyl ges i yn Dinorwig dros yr haf.

Mi es i i rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn y Ganolfan, a roeddynt yn wych. Diolch i pawb sydd wedi trefnu nhw.

Oddi wrth
Caroline

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Caryl ac Awen Jones, Na Nog ar eu llwyddiant yn yr arholiad piano Gradd 2 a gynhaliwyd dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

COFION. Mae nifer o'r pentref nad ydynt wedi bod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar. Bu Mrs Megan Jones, Greuor Villa yn Ysbyty Gwynedd a Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth wedi treulio cyfnod byr yn yr un ysbyty. Mae Mrs Eirlys Williams, Marino wedi dychwelyd gartref wedi triniaeth i'r galon yn Ysbyty Manceinion. Anfonwn ein cofion atoch gan ddymuno adferiad llwyr a buan i chwi oll.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Rhandir ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Pob dymuniad da i Geraint ac Einir Gwyn ar enedigaeth eu hail fab, Huw Gwynn ar Fedi 10 a brawd bach i Ifan Gwynn.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Y GYMDEITHAS. Cyfarfu'r aelodau yn y Ffestri nos lau, Medi 13. Cadeirydd y noson oedd Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir. Cymerwyd at y myfyrdod gan Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc a chyfeiriodd feddyliau pob un oedd yn bresennol, drwy gyfrwng Salm 46, at y drychineb erchyll a ddigwyddodd yn Efrog Newydd ddeuddydd ynghynt. Croesawodd y Cadeirydd ŵr gwadd y noson, sef Mr Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug. Bu'n noson addysgiadol yn ei gwmni yn trafod enwau lleoedd ym Mhlwyfi Llanddeiniolen, Llanrug a Llanberis - eu tarddiad, eu hystyron yn ogystal â'r cefndir hanesyddol oedd yn gysylltiedig â'r enwau hynny.

Talwyd gair o ddiolch am noson bleserus gan Mr R.W. Evans.

Bydd y cyfarfod nesaf, cyfarfod olaf y tymor, nos lau, Hydref 11

pryd y disgwyllir Mr Duncan Brown, Waunfawr i roi sgwrs. Y Cadeirydd fydd Mr D.G. Ellis, Gweledfa.

TREFN OEDFAON HYDREF.

7 Mr Norman Closs Parry, Treffynnon am 10.00;

14 Parch Gwenda Richards, Caernarfon am 10.00;

21 Oedfa Ddiolchgarwch dan nawdd yr aelodau a phlant yr Ysgol Sul am 2.00; Mr J. H. Hughes, Llanberis am 5.30;

28 Mr J. O. Roberts, Bethesda am 5.30.

DRAENOG



Tueddi i feddwl fod y rhai ohonom sy'n cerdded milltiroedd bob mis yn dosbarthu'r Eco yn frwdfrydig am ymroddgar o ddrws i ddrws - yn bobol hynod ffit a sionc - wedi arfer crwydro ar hyd lonydd tywyll eu bro ym mhob tywydd. Hynny yw, os nad ydynt wedi cael un 'jeribinc' yn ormod ac yn methu dal eu gafael ar eu cŵn nes disgyn yn bendramwnwgl ar balmant tywyll yn oriau mân y bore. Dyna fu hanes un ddsbarthwraig ddi-enw beth bynnag a dorodd ei choes o ganlyniad i'w hanturiaethau un nos lau. Gair o gyngor - bydd ang(w)en dal y tennyn yn dynnach y tro nesaf!

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr

Cofio Pensaer

Ar 14 Awst bu farw y pensaer George Knowles, Penbedw ac yntau yn 83 mlwydd oed. Yr oedd yn adnabyddus i lawer yn Neoniaeth Arfon ac yn Esgobaeth Bangor oherwydd ef oedd y pensaer ar amryw o Eglwysi. Pan ddaeth twf yn y rheidrwydd i blwyfi benodi penseiri i archwilio a gofalu am gyflwr Eglwysi, ni chafwyd un gwell na George Knowles.

Deuthum ar ei draws gyntaf pan oedd wedi dwyn adroddiad bod cyflwr yr Eglwys fach yn bur ddifrifol gan fod yr angeuol 'sych-bydredd' yn creu cymaint o ddifrod. Gwyddom mai canlyniad hyn oll fyddai cau'r addoldy a olygai gymaint i ni. Ond, nid pensaer di-dostur a chaled oedd George Knowles mewn sefyllfa o'r fath. Gwyddai fod cau y drws yn brofedigaeth i'r aelodau, yr ardal, a phawb gafodd eu magu ar ei haelwyd. Daeth yr Achos i ben yn Ninorwig gydag agwedd sensitif ac un gadarnhaol. Trwy weledigaeth Glyn, fy mrawd, a gwaith y pensaer George Knowles, crëwyd Capel Mair o fewn Eglwys y Plwyf (Eglwys Crist Llandinorwig) sy'n fangre o goffadwriaeth am St. Mair, Dinorwig ac sydd hefyd yn Gapel o addoliad byw. Mae'n goffadwriaeth i'r dim i ddygnwch, gweledigaeth ac agwedd gonsyrnol George Knowles.

Bûm yn cydweithio gydag ef i sicrhau gwelliannau i Eglwys hynafol Nant Peris ac yma eto roedd ei agwedd o daclo'r gwaith yn ddiymdroi yn amlwg. Hoffwn ef oherwydd ei drefnusrwydd yn ei holl waith ac roedd yn ymwelydd cyson hefo'i wraig i'r Llannau o lannau Merswy.

Roedd ganddo'r ddawn o egluro mewn dull a modd syml dermau y maes adeiladu i bawb a oedd, yn llythrennol, yn gweld y cyfan fel Algebra llwyr! Gwn yn iawn am broblemau mewn rhai lleoedd a gododd yn sgil penodi penseiri i ofalu am addoldai ac i lawer bu'n bennod hwyrach i'w anghofio. Ond roedd yr annwyl George Knowles i'r gwrthwyneb yn llwyr, gan ei fod ef yn awyddus i wella cyflwr adeiladau Tŷ Dduw, gydag awch a brwdfrydedd na allai rhywun ond bod yn heintus yn y gwaith gydag ef. Ar ôl ymddeol a cholli ei annwyl briod a George wrth ei fodd mewn cartref gofal, fe ddeuai bob chwarter yn ddi-feth lythyr swmpus yn sôn am hyn a'r llall yn ei fywyd - y cyfan yn ei ysgrifen ei hun.

Dyledus a diolchgar mae llawer Eglwys a phlwyf am waith George Knowles, y gŵr o Benbedw a garai Eglwysi yn Arfon a mannau eraill mor angerddol. Diolch am ei waith a heddwch i'w lwch.

Idris Thomas, Trefor

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn Ysgol Penisa'rwaun nos Fawrth, 4 Medi. Roedd naw Cyngorydd yn bresennol a chafwyd pum ymddiheuriad. Croesawyd yr Aelod Seneddol, Mr Hywel Williams, fel gŵr gwadd.

Derbyniwyd amryw o geisiadau cynllunio, nid oedd yr un gwrthwynebiad a hysbyswyd y Cyngor o 11 cais a ganiatawyd gan Gyngor Gwynedd.

Gweithredwyd ar amryw o faterion yn ymwneud â'r

Heddlu; Cyngor Gwynedd; llwybrau cyhoeddus; cludiant cyhoeddus a mudiadau lleol a chenedlaethol. Cafwyd adroddiad o ddatblygiad Llechen Las gan y Cadeirydd, Len Jones.

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol gan fudiadau'r ardal. Dylid anfon ceisiadau, gan gynnwys matolen gyflawn, at y Clerc, John B. Jones, Ceris, Dciniolen, LL55 3LU erbyn dydd Gwener, Hydref 19.

Cymdeithas Y Plant (The Children's Society) Ymwelwyr annibynnol

Oes gennych ddiddordeb mewn gwneud gwaith gwirfoddol gyda phlant a phobl ifanc?
Mae Cymdeithas y Plant yn chwilio am wirfoddolwyr dwyieithog i weithio fel Ymwelwyr Annibynnol gyda plant a phobl ifanc mewn gofal yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
Byddwn yn cynnwys sesiad gofalus ac hyfforddiant sy'n arwain at gymhwyster, goruchwyliaeth a chefnogaeth.
Os oes gennych ddiddordeb:

Gysylltwch a ni yma ar 0800 085 2274



AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR.



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TIGEDI LOTERI AR WERTH YMA!

BETHEL

Geraint Ellis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115



Y bobl ifanc a dderbyniwyd yn aelodau yn y Cysegr.

Y NEUADD GOFFA. Nos Wener, 14 Medi cafwyd noson ddifyr o Bingo yn y Neuadd. Pwrpas y noson oedd ailgychwyn y Clwb 100 a bu tri o'r aelodau yn lwcus iawn.

Mr a Mrs Hughes, Pen y Buarth gafodd y wobwr gyntaf o £50, gyda £25 i Nia Griffith, Glandŵr a £10 i Mrs Ceris Williams, 1 Tan y Cae.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Clwb 100 ac i'r Bingo. Os oes rhai eraill am ymuno cysylltwch â Kathy Bell, Tŷ Newydd neu un o'r cysylltwyr lleol. DERBYN YN GYFLAWN

AELODAU. Nos Sul 27 Mai mewn gwasanaeth dan ofal y gweinidog, y Parchedig Dafydd Hughes, derbyniwyd 9 o'r aelodau ieuanc yn gyflawn aelodau o'r Cysegr.

Am nad oedd Gwenan Jones yn gallu bod yn bresennol fe'i derbyniwyd hithau yn y gwasanaeth ddydd Sul, 24 Mehefin.

**Beth am Stori
neu Lythyr i'r
ECO**

Gobaith

Os yw stormydd byd yn curo,
Ac os trwm a blin y daith;
Os y'th lethir gan ofidiau
Wrth ymdrech y dy waith;
Paid â digaloni gyfaill,
Er pob malais, sen a gwawd,
Cofia'r amharch a'r gwaradwydd
Brofodd Crist ddaeth inni'n frawd.

Pan ddaeth Ef i lawr o'r Nefoedd,
Beth a gafodd, dim ond sen,
Diodde'r bicell fain a'i wawdio
Ar y groes, rhwng daer a nen;
Coron ddraen blethedig roddwyd
Ar ei ben, ond er ei glwy
Clyw ei ymbil dros ddynolryw,
Maddau'u hanwybodaeth hwy.

Er it deimlo'n fynych, fynych
A yw bywyd werth ei fyw,
A dy fod yn cael dy lethu
Â gofidiau o bob rhyw;
Cwyd dy galon, gwêl yn amlwg
Rai mewn cyflwr gwaeth yn siŵr,
Ffydd a gobaith yn yr Arglwydd
Ddeil dy ben uwchben y dŵr.

Ymddirieda yn ei allu
Cofiwn am ei gariad mawr,
Gŵyr yn union ein ffaeiddau,
Bechaduriaid gwael y llawr.
Daliwn afael ar y bywyd,
Pob amheuan gwag a ffy,
Drwy wneud hyn daw i ni'n amlwg
Fod yr afael sicraf fry.

Ella Jones
Y Bwthyn
Llanrug

Clwb Eryri

Trefnwyd y wibdaith flynyddol eleni gan Frank Green ac ar Sadwrn, Mehefin 23 mwynhaodd y gwmniaeth fach ond ddethol ffrwyth ei lafur yn crwydro rhai o lecynnau hanesyddol siroedd y Fflint a Dinbych. Treuliwyd peth amser yn Nyserth yn cael hanes yr eglwys leol a'r gwaith plwm ac ymlaen wedyn i Drelogan at gartref David Lloyd. Ar ffiniau Bagillt ymwelwyd â Maes Dychywelfa, lle y bu y gwrthryfel gwaedlyd rhwng byddinoedd Owain Gwynedd a Harri'r Ail, a chlowyd y daith

yn Abaty Basingwerk dan arweiniad brwdfrydig un o'r tywyswyr gwirfoddol.

Yn ystod y dydd, dewiswyd y swyddogion ar gyfer y tymor i ddod a chodwyd Dei Tomos, Nant Peris yn llywydd i ddilyn John Hugh Hughes oedd yn absennol oherwydd anafiadau wedi damwain.

CLWB ERYRI. Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor o Glwb Eryri yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis ar nos Wener, Hydref 5 am 7.30 o'r gloch. Y siaradwr fydd Dei Tomos, Llywydd y Clwb, gyda Gwynn Davies, Is-lywydd yn y Gadair.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CWMDERI

www.s4c.co.uk


POBOL Y CWM
7.00PM
LLUN-GWENER
MONDAY-FRIDAY

PERYGL
LLIFOGYDD
FLOOD WARNING

BBC Cymru Wales

S4C

CROESAIR HYDREF



Os nad oes cof da gennych, efallai y bydd yn rhaid i chi wneud peth ymchwil cyn ateb y cliwiau sydd â rhifau yn gliwiau iddynt.

Ar Draws:

1. Tir isel (3)
3. Lle i anifail guddio (3)
5. Anifail o'r môr (5)
8. Rhywbeth yn llosgi (3)
11. Dwylo llong? (4)
12. Galw'n ôl (5)
13. Ar ôl 1 ar draws, '95 (6)
14. Pwrpas, ond mae'n rhyfedd! (3)
15. Anfon o flaen, mewn car? (5)
16. Digonedd (7)
18. Yr hyn sy'n deillio o 40 ar draws (4)
19. O waed pur! (6)
21. Offeryn llyfnhau hyll? (5)
22. Perth wedi ei thorri a'i phlygu (3)
24. Cyfeiliornus (9)
26. Môr-filltir (3)
28. Ar ôl 17 i lawr, '73 (5)
29. Yr ongl y saif y cwpwrdd ynddi? (6)
30. Prif Weinidog anniben? (4)
33. Llysieuyn chwerw a ddefnyddir mewn moddion (7)
34. Perfformiwr (5)
37. Rhywbeth o'i le yn Llandinam? (3)
40. Bragu (6)
41. Ar ôl 1 ar draws, '91 (5)
42. Afiechyd sy'n codi gwres y gwaed (4)
43. Fc ddigwydd ar ddiwedd pob dydd (3)
44. Tegwch un radd? (5)
45. Hanner asyn a hanner ceffyl! (3)
46. Mae Tegwen yn dechrau bod yn brydferth (3)


I Lawr:

1. Cig moch wedi ei halltu (5)
2. Peth bach yn dangos faint ydi hi o'r gloch (7)
4. Mynachlog (5)
6. Ar ôl 1 ar draws, '98 (4)
7. Rhain sy'n galluogi cychod i ddringo'r gamlas (6)

Derbyniais un ar hugain o atebion i groesair Medi, nifer sylweddol o gofio fod y cyfnod a ganiatawyd i chi mor fyr. Dyma'r rhai a dderbyniwyd:

N. Hughes, Cwm-y-glo; Mair Evans, Caernarfon; Gwen Davies, Y Wirral; Dorothy B. Jones, Llanrug; Rosemary Williams, Tregarth; Nansi Davies, Rhuthun; Moreen

8. Craig a ffurfiwyd o'r hyn a welir ar lan y môr (9)
9. Y trawst sy'n cynnal y to (7)
10. Crochan (4)
17. Tir isel eto! (6)
18. Argae (3)
19. Y rhan o'r corff sy'n cynnwys y stumog (3)
20. Wedi ei gwahanu oddi wrth y wifren ddaear mewn trydan (6)
23. Awdur yr englyn am y Gorwel sy'n darfod: (4,5) Hen linell bell nad yw'n bod Henderfyn nad yw'n darfod.
25. Hen fynydd-dir (3)
27. Adailad uchel sgwâr neu grwn (3)
28. Cnocell y coed (7)
31. Lle i olchi dillad (7)
32. Gorffwys y corff yn ei hyd (6)
35. Cynnyrch carreg arbennig wedi ei llosgi mewn ffwrn (4)
36. Brawiau (5)
38. Ar ôl 1 ar draws, '87 (5)
39. Ehediad (4)



DYDDIADUR HYDREF

1. Llun: **DEINIOLEN**. Cymdeithas Llandinorwig - Swper Cynhaef
- LLANRUG**. Adran yr Urdd yn dechrau tymor newydd
4. Iau: **WAUNFAWR**. Sefydliad y Merched.
- DEINIOLEN**. Cyfarfod Diolchgarwch y Chwiorydd yn Ebeneser am 2 o'r gloch.
7. Sul: **CWM-Y-GLO**. Clwb y plant am 2.00 a phregeth am 4.00.
8. Llun: **WAUNFAWR**. Y Gymdeithas Lenyddol - cyngerdd gyda Pharti Clychau'r Grug.
- DEINIOLEN**. Cyngor Eglwys - Cyfarfod Diolchgarwch.
11. Iau: **BRYNREFAIL**. Y Gymdeithas am 7.00 gyda Mr Duncan Brown.
12. Gwe: **DEINIOLEN**. Swper Merched y Wawr yn Antur Waunfawr.
16. Maw: **CWM-Y-GLO**. Cyngerdd yng Nghapel y Tabernacl am 6.30.
19. Gwe: **CAEATHRO**. Noson Lobsgows a Gwin yng Ngharrog, Rhosbach am 7.30.
21. Sul: **BRYNREFAIL**. Oedfa Ddiolchgarwch am 2.00.
- DEINIOLEN**. Oedfa Ddiolchgarwch am 10.00 yn Ebeneser ac am 5.00 yng Nghefnywaun.
22. Llun: **DEINIOLEN**. Y Gymdeithas Lenyddol yn ail-ddechrau. Sgwrs gan Mr D. Whiteside Thomas.
27. Sad: **DEINIOLEN**. Eisteddfod Gwaun Gynfi am 1.00 a 6.00 o'r gloch yn Ebeneser.
31. Mer: **LLANRUG**. Disgo Calan Gaeaf yn yr ysgol.

RHAG-HYSBYSIAD

Tachwedd3: Eisteddfod Bentref Llanrug ac Eisteddfod Bentref Penisarwaun

Lennon, Llanberis; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Alvona Jones, Prestatyn; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Jennie Williams, Clynnog; Eirwen Roberts, Tregarth; I. Jones, Borth-y-gest; Eluned Jones, Trefor; Nan Owen, Llanberis; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Ceridwen Williams, Llanrug; Olwen Owen, Llanberis; Jean Hughes-Jones, Catherine A. Jones, Rhiw ac E.E. Jones, Rhoshirwaun.

'Egnioli' oedd yr ateb cywir i 32 i lawr, mae'n cael ei gynnwys yn y *Geiriadur Cyfoes* fel cyfieithiad o'r gair 'energise', sef 'rhoi bywyd mewn rhywbeth'.

Roedd nifer arall o gamgymeriadau yn codi yn atebion nifer ohonoch.

Ymgais Moreen Lennon, Plas Tirion, Llanberis LL55 4HD ddaeth allan o'r het oedd yn cynnwys yr atebion cywir. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Hydref, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, LL55 3HE erbyn Hydref 22

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

PRYD I BAWB

**Bwffe blasus o safon
at bob achlysur**

CINIO BUSNES

BEDYDD

PEN-BLWYDD

TE ANGLADDAU

CERID MACKINNON
(01286) 673190



CHWARAEON

Ymateb y Dilynwyd

Fe fûm yn ffodus, neu yn anffodus, i gael tocyn i wyllo gêm Cwpan Ewrop Manchester United yn erbyn Lille yn Old Trafford. Yn sicr, nid oedd perfformiad miliynwyr Ferguson yn cymharu â'r llwyfan gwydych sydd o'u hamgylch. Ond ie, ennill yw ennill!

Yn ystod y daith i'r gêm, roeddwn wedi paratoi holiadur a chefais rhyw 50 o'm cyd-deithwyr i ymateb iddo. Yr oeddwn yn awyddus i gael ymateb y dilynwyd – ie, rhai mor hyddysg â dilynwyd Man Utd hyd yn oed – ar sawl pwnc sydd wedi codi'n ddiweddar.

Gan fod gennyf gyswllt â'r cyfryngau Cymraeg mae nifer wedi sôn am y newid syfrdanol yn y sylw – neu'r diffyg sylw – a roddir i bêl-droed ar gyfryngau Cymru o'i gymharu â rygbi. Mae'r arian a werir er mwyn sicrhau y cytundebau rygbi, o'i gymharu â'r bêl-droed, yn warthus o anghyson. Rhai yn cyfeirio, gan fod cytundeb teledu a radio dros sylwebu gemau Cynghrair Cymru gan BBC Cymru, fod yn torri ar eu 'amser sylw nhw' ac ar yr un pryd yn gwahardd Champion, Radio Ceredigion a'u bath rhag rhoi sylw i'r Cynghrair Cenedlaethol. Yn sicr, mae hyn yn gwneud niwed i'r gêm yng Nghymru.

Fel y nodwyd gan nifer yn eu hymateb ar yr holiadur, roedd diddymu'r rhaglen 'Gôl' yn anfaddeuol. Mae dangos gêm fyw o rygbi ar nos Wener, prawn Sadwrn ac yna y fath sylw ar raglen 'Y Clwb' bawn Sul yn rhoi halen ar y briw. Roedd sawl un ar y bws o Ynys Môn, ardal Bangor, Caernarfon, Dyffryn Nantlle a Dyffryn Ogwen. Yr oedd yr atebion yn gymysgled, a rhai'n ddiddorol iawn – yn enwedig y sillafu. Dyma drawsddoriad o'r atebion.

Y Braso'n Barod?

Rhodddwyd cryn sylw yn ddiweddar i Wyl Hwyllo fawr yr One Ton Cup yn ardal Pwllheli. Denodd gystadleuwyr ledled y byd a phawb yn canmol safon y cystadlu. Gyda'r Ganolfan Genedlaethol i Sgiliau Morwrol ar ein stepan drws ym Mhlas Menai, mae nifer o ieuenctid lleol yn magu sgiliau ar eu niferus gyrsiau. Ond ym merw cystadlu mewn rasmus môr mae un bachgen ieuanc o Fethel yn magu profiad.

Deg oed yw Dylan Huws o dyddyn Glan Gera, Bethel. Dyma'i dymor cyntaf yn cystadlu yn rasmus Bae Aberdaron a drefnir gan Gymdeithas Hwyllo Hogia Llŷn – enw braf ynto? Oherwydd clefyd y traed a'r gnanau a'r gwaharddiadau yn ei sgil, bu'r tymor yn hwyr yn dyddwyrnoleni. Mae 15 ras yn y gyfres ond, hyd yn hyn, dim ond 12 ras a gynhaliwyd. Y nod i Dylan yn ei dymor cyntaf yw bod yn aelod o grŵp y swm a geronir yn Bencampwyr Bae Aberdaron.

Ar hyn o bryd mae'r gobeithion yn uchel. O'r 12 ras a gynhaliwyd, all yw ei safle safaf. Gan mai'r canlyniadau yn y 13 ras 'arau' sy'n cyfrif, a'r ddwy safaf yn cael eu

Yn rhyfeddol tra'n ymdrin â phêl-droed lleol, roedd carfan go lew yn mynd i wyllo eu tîm pentref yn hytrach na'r ddau fawr – Bangor a Chaernarfon. Yn amlwg roedd y dynfa i Old Trafford ar y Sadwrn yn fwy nag i'r Oval neu Ffordd Farrar – er y gost o hyd at £30 dim ond am docyn a'r costau teithio.

Mwy o gemau nos Wener oedd y gri boblogaidd. Nifer yn cyfeirio nad oedd digon o fewnbwn lleol yn ein timau Cynghrair Cymru lleol. Roedd gormod o'r 'un wyneb' yn symud fel gwenoliaid o un clwb y gogledd i'r llall. Tipyn o sôn am Sgowsars!

Sut i wella'r Cynghrair? Atebion poblogaidd oedd cynghrair llai, dethol nosweithiau poblogaidd am y gemau deniadol, a darganfod noddwr. Rhai yn gweld llygedyn o obaith yn sefydlu yr ambell academi ieuenctid yn rhai o'r clybiau. Cyfeiriad hefyd bod cael rhai fel Blackmore a Southall yn chwarae yn y Cynghrair yn denu sylw.

I'r cwestiwn pwy ddylai fod yn rheolwr ein tîm cenedlaethol, roedd cefnogaeth gref i Marc Hughes (disgwyliedig efallai gan griw o ffyddloniaid Old Trafford). Rhai'n nodi fod talcen caled o'i flaen, ond bod y cymeriad ganddo i wynebu'r her. Terry Yorath a John Toshack oedd dewis lleiafrif.

Ble i chwarae'r gemau? Oherwydd y cyfleusterau ysblennydd ac 'atyniadau' Caerdydd, roedd mwyafrif llethol o blaid Stadiwm y Milflwydd. Er hynny roedd nifer yn dal i nodi y dylid defnyddio y Cae Ras, oherwydd yr awyrgylch a 'chartref traddodiadol pêl-droed y gogledd'. Ymateb diddorol.

Dyma gopi o'r holiadur. Sut

'gollwng' mae llwyddiant o fewn cyrraedd. Un canlyniad gweddol felly yn y tair ras sy'n weddill ddylai fod yn ddigon.

Enw'r cwch yw'r Wylan a'r tri sy'n arwain y ffordd ac yn hedfan yn uchel yw Dewi Huws, tad Dylan, Dylan ac Alwyn Ifans. A'r cyfeiriad at y Braso? Wel, ym mhob ras unigol rhoddir tlws i'r sawl sy'n ennill ac yn dod yn all. Felly mae 12 tlws yn yr howld yn barod, a digon o le ar y dec am 16 tlws gobeithio – 15 ras ac yna cwpan fawr y pencampwyr!

Wrth ei holi roedd Dylan yn fyrlymus yn trafod y gamp, ac yn amlwg fel un â gwreiddiui ei dad yn swm heli Llŷn ac yng ngolwg y swnt, buasai ennill y bencampwriaeth yn golygu llawer iddo. Cyfeiriodd at wefr y cystadlu, ac hefyd yr elfen gref o dim ym merw cystadleuaeth. Ond rhaid cyfaddaf, bachgen gonest iawn yw Dylan. Pan ofynnais iddo beth oedd y prif sbardun i'w llwyddiannau, cyfaddefodd mai anioeddfol tuasai gorfod derbyn pryfocio taid petai'n cael canlyniad gwael. Ie wir, yr hen a wŷr a'r ieuanc a dybia.

Clwb Hoci Caernarfon



Clwb Hoci Caernarfon sy'n cynnwys nifer sylweddol o chwaraewyr o Fro'r Eco.

buasech chi wedi ymateb? Rhowch gynnig arni. Nid oes raid defnyddio enw Man Utd!

Holiadur Pêl-droed

Diolch am eich cefnogaeth. Os oes dewis, rhowch gylch o gwmpas eich ateb.

1. Ers faint rydych chi yn cefnogi eich hoff dîm?
2. Tua faint o'r gemau cartref fyddwch chi'n fynychu? Tua 25% / 50% / mwy na 50%.
3. Faint o'r gemau oddi cartref fyddwch chi'n mynd iddynt mewn tymor? Llai na 5 / rhwng 5 a 10 / mwy na 10.
4. Sut fyddwch chi'n teithio i'r gemau fel arfer? bws / bws mini / car / tren.
5. O'r gemau cartref, ydych chi'n mynd i bob gêm penwythnos / ambell gêm benwythnos / bob gêm ganol wythnos / ambell

- gêm ganol wythnos / pob gêm.
6. Tua faint mae'n gostio ar gyfer y gemau (tocyn + bws)? Tua £20 / £30 / mwy na £30.
7. Pa un yw eich tîm pêl-droed lleol chi?
8. Pryd aethoch chi i'w gweld nhw ddiwedthaf?
9. Pa un yw'r clwb Cynghrair Cymru agosaf?
10. Pryd aethoch chi i'w gweld nhw yn chwarae ddiwedthaf?
11. Beth yw eich barn am Gynghrair Cymru?
12. Sut gellir ei gwella?
13. Beth yw eich barn am stopio'r rhaglen 'Gôl'?
14. Ydi pêl-droed yn cael sylw teg ar y cyfryngau yng Nghymru?
15. Pwy ddylai fod yn rheolwr tîm pêl-droed Cymru?
16. Ymhle y dylid chwarae gemau rhyngwladol pêl-droed Cymru?

Eu Bachu'n Ifanc



Rhai o enweirwyr ieuanc lleol ar Lyn y Dywarchen mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Bysgota leol.

Dal i Redeg

Oedd eich cyhyrau yn brifo yn ddiweddar? Oeddech chi'n crynu wrth eu gweld yn mentro i Lyn Padarn? Allech chi reddeg ar ôl nofio ben bore a gyrru beic ar elltydd ein bro? Ie, tipyn o her fu'r hanner 'Ironman Challenge' – er bod nifer o ferched wedi cystadlu hefyd. Yn ôl yr adroddiadau bu yn llwyddiant ar sawl lefel, a gobeithir denu y 'Full Ironman' yn y dyfodol agos.

Bu nifer o gystadleuwyr lleol yn wynebu'r her ac yn blês iawn â'u perfformiadau. Fel yn achos Ras y Wyddfa, mae rhywun yn synnu at y cynifer o'r boblogaeth leol sy'n ymwneud â'r campau o reddeg, beicio, nofio ac ati. Gwir ddaud bod y campau yn dioddef o ran cyhoeddusrwydd o'u cymharu â

phêl-droed a rygbi.

Braf yw cyfeirio eto y mis yma at gamp rhedwr ifanc o Ddôl Elidir, Llanberis sef Gwyn Arfon Williams. Rhyw flwyddyn neu ddwy yn ôl soniwyd fel yr oedd Gwyn yn gwneud ei farc mewn rasmus lleol dros gefn gwlad a rhedeg mynydd. Soniwyd am ei barodwrydd i weithio'n galed i feistrol'r gamp. Yn amlwg, mae'r holl ymarfer wedi dwyn ffrwyth iddo unwaith eto. Mae newydd ddychwelyd o'r Eidal ble bu'n aynycholi Cymru yn Ras Cwpan y Byd i Redwyr Mynydd. Yn galonogol, tîm ieuanc a anfonwyd gan Gymru ac roedd eu potensial yn amlwg. Bydd Gwyn yn fodlon iawn gyda'i berfformiad gan mai ef oedd y Cymro cyntaf yn ôl.